npm
national preventive mechanism

# Monitro lleoedd cadw

Pedwerydd **Adroddiad Blynyddol**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM)
y Deyrnas Unedig
**2012–13**

# Monitro lleoedd cadw

# Pedwerydd adroddiad blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2013

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Mawrth 2014

Cm 8824

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon
ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Os nodwyd bod deunydd o dan hawlfraint trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Anfonwch unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk
neu HM Inspectorate of Prisons, Victory House, 6th Floor, 30–34 Kingsway, Llundain WC2B 6EX

ISBN Argraffu 9781474100243
ISBN y We 9781474100250

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2625438 03/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys



**Cyflwyniad**
gan Nick Hardwick, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi **4**

**1 Cyd-destun** **6**
Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT) **7**
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y DU **7**
Y cyd-destun gwleidyddol a'r amgylchedd polisi **10**

**2 Y bedwaredd flwyddyn** **12**
Strwythur a chydgysylltiad yr NPM **13**
Datblygiadau sy'n ymwneud ag aelodau penodol **14**
Sicrhau sylw llawn i'r holl leoedd cadw, OPCAT Erthygl 4.2 **17**
Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth, OPCAT Erthygl 19(c) **20**
Cydweithio rhyngwladol **29**

**3 Edrych ymlaen i'r bumed flwyddyn** **32**

**4 Atodiadau** **34**
1. Datganiad gweinidogol ysgrifenedig **35**
2. Trosolwg ar yr aelodau **36**
3. Cylch gorchwyl grŵp llywio'r NPM **41**
4. Cylch gorchwyl is-grŵp plant a phobl ifanc yr NPM **43**
5. Rhestr byrfoddau **45**
6. Mwy o wybodaeth am NPM y DU **46**



# Cyflwyniad gan Nick Hardwick

## Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

O gwmpas y byd, mae unigolion sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn neilltuol o agored i'r perygl o gael eu cam-drin – yn fwriadol neu o ganlyniad i esgeuluso. Mae carcharorion, ac eraill sydd wedi'u cadw, yn dibynnu ar staff am eu diogelwch a'u hanghenion mwyaf sylfaenol. Yn rhy aml o lawer, maent yn cael eu cadw o'r golwg oddi wrth sylwebwyr annibynnol ac mae'n bosibl y bydd y nodweddion a arweiniodd at eu cadw yn tanseilio eu hygrededd os byddant yn cwyno.

Gweledigaeth y rheini a ddrafftiodd Brotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT), a lofnodwyd gan y DU yn 2003, oedd mai un rhwymedi i gam-drin o'r fath oedd ymweliadau rheolaidd gan gorff annibynnol a allai gyflwyno adroddiadau ar yr hyn a welodd a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. O dan OPCAT rhaid i bob parti-wladwriaeth sefydlu mecanwaith i gynnal ymweliadau o'r fath, sef y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM).

Mae strwythur NPM y DU yn neilltuol o gymhleth gan ei fod yn cynnwys 18 o wahanol gyrff sy'n adlewyrchu'r gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban a'r rhwydwaith hirsefydlog presennol o sefydliadau sy'n delio â llawer o fathau o leoliadau cadw.

Mae NPM y DU yn cael ei gydgysylltu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (Cymru a Lloegr).

Roedd yr holl leoedd cadw sydd o fewn cwmpas yr NPM o dan bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn, fel yr oedd aelodau'r NPM eu hunain, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn wynebu amgylchedd polisi a oedd yn newid yn gyflym. Mae'r ffordd yr oedd aelodau'r NPM wedi ymateb i'r heriau hyn a'r hyn a welsant yn ystod eu hymweliadau a'u harolygiadau wedi'i gofnodi yn eu hadroddiadau blynyddol eu hunain. Yr her i'r NPM yn gyffredinol, a'i adnoddau canolog prin ar gyfer cydgysylltu, oedd sicrhau bod ei waith yn gyson ac yn gynhwysfawr drwyddo draw.


Ceisiwyd sicrhau cysondeb drwy rannu gwybodaeth ac arferion yn rheolaidd mewn cyfarfodydd busnes lle'r oedd yr holl aelodau'n bresennol a thrwy barhau i ddatblygu grŵp llywio bach i gyflawni gwaith rhwng y prif gyfarfodydd busnes. Sefydlwyd is-grŵp ar wahân ar gyfer plant i gydgysylltu gwaith a rhannu'r arferion gorau. Daeth chwe thema allweddol i'r amlwg, sy'n gyffredin i nifer o fathau o leoedd cadw, lle y dylid cymhwyso egwyddorion sylfaenol yn gyson ac a ddylai fod yn flaenoriaethau uchel i holl aelodau'r NPM:

- y pwysigrwydd o ddysgu'r gwersi ar ôl marwolaethau ym mhob math o ddalfeydd, a rhannu a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd er mwyn cymryd camau ataliol

- pennu a chymhwyso egwyddorion cyffredin ar gyfer monitro'r defnydd o ataliaeth a ffyrdd o'i rheoli
- cymhwyso safonau a normau hawliau dynol rhyngwladol ynghylch carcharu pobl ar eu pen eu hunain at bolisi ac ymarfer, gan edrych yn benodol ar y ffordd y mae gwahanu, arwahanu a neilltuo mewn lleoedd cadw yn gallu tanseilio'r safonau hyn
- cydnabod a monitro cadw 'de facto' sy'n berthnasol i fandad OPCAT yn y DU, a galw am roi prosesau effeithiol ar waith i atal cam-drin lle y mae'n digwydd
- amddiffyn carcharorion a rhai sy'n cael eu cadw rhag dial neu sancsiynau am gydweithredu ag unrhyw ran o'r NPM
- sicrhau bod y dull o drin plant yn gyson â'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn lle bynnag y maent yn cael eu dal.


Ym mhob un o'r meysydd hyn, byddwn yn ceisio sicrhau cyd-ddealltwriaeth, gan weithio ar y cyd os yw'n briodol a chynnig sylwadau am bolisi a deddfwriaeth arfaethedig yn unol ag OPCAT Erthygl 19 (c). Roedd yr angen i sicrhau bod gwaith yr NPM yn gynhwysfawr, a bod ymweliadau ataliol rheolaidd â'r holl leoedd cadw, wedi'i danlinellu gan y datgeliadau am gam-drin arswydus yn 2011 a 2012 yn Ysbyty Winterbourne View ar gyfer oedolion ifanc sydd ag anawsterau dysgu, a methiant y mecanweithiau ataliol a oedd ar waith bryd hynny. Roedd yr arolygiadau cyntaf o ddalfeydd y llysoedd a'r ail flwyddyn o fonitro ar hebrwng carcharorion i wledydd tramor wedi dangos bod rhai arferion drwg wedi ymwreiddio yn niffyg dulliau systematig o arolygu a monitro cyn hynny. Yn 2013–14 byddwn yn ceisio adnabod a delio ag unrhyw fath arall o leoedd cadw lle nad oes ymweliadau statudol annibynnol.

Yn Ebrill 2014 bydd yr NPM yn nodi pumlwyddiant ei ddynodiad yn y DU. Edrychwn ymlaen at gydweithio â holl aelodau'r NPM ac eraill sy'n ymwneud ag atal cam-drin creulon, annynol a diraddiol o'r rheini sydd mewn lleoedd cadw, er mwyn ystyried y cynnydd a gafwyd yn y cyfnod cyntaf hwn ac ymgynghori ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.



**Nick Hardwick**
Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

# Adran un
# Cyd-destun



## Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT)

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) yn gytuniad rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n ceisio rhoi mwy o amddiffyniad i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Drwy ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2002, dangoswyd bod consensws yn y gymuned ryngwladol fod pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn neilltuol o agored i'r perygl o gael eu cam-drin a bod angen canolbwyntio ar gamau ataliol wrth ymladd yn erbyn cam-drin o'r fath. Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal cam-drin mewn lleoedd cadw yw drwy system o ymweliadau rheolaidd annibynnol â'r holl leoedd cadw. Yn ystod ymweliadau o'r fath, bydd triniaeth y rhai a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu monitro.

Mae'n ofynnol bod gwladwriaethau sy'n cadarnhau OPCAT yn dynodi mecanwaith ataliol cenedlaethol ('national preventative mechanism') (NPM). Corff neu grŵp o gyrff yw hwn sy'n archwilio triniaeth rhai sy'n cael eu cadw yn rheolaidd, yn gwneud argymhellion ac yn cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft er mwyn gwella'r driniaeth a'r amodau mewn lleoedd cadw.

Er mwyn cyflawni ei rôl monitro yn effeithiol, mae'n ofynnol bod yr NPM:

- yn annibynnol ar lywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro
- yn cael digon o adnoddau i gyflawni ei rôl; ac
- yn cynnwys personél sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ac sy'n ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi.

Hefyd, mae'n ofynnol bod yr NPM yn cael pwerau:

- i fynd i mewn i'r holl leoedd cadw (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat)
- i gyf-weld â rhai sydd mewn lleoedd cadw a phobl berthnasol eraill yn breifat
- i ddewis y lleoedd y mae am ymweld â nhw a'r bobl y mae am eu cyfweld
- i gael gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, nifer y lleoedd cadw a'u lleoliad;
- i gael gwybodaeth am driniaeth y rhai mewn lleoedd cadw a'r amodau ar eu cyfer.

Yn ogystal â hyn, rhaid i'r NPM gydgysylltu â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, corff rhyngwladol a sefydlwyd o dan OPCAT sydd â swyddogaethau gweithredol (ymweld â lleoedd cadw mewn Parti-wladwriaethau a gwneud argymhellion ynghylch amddiffyn rhai mewn lleoedd cadw rhag eu cam-drin) a swyddogaethau cynghori (darparu cymorth a hyfforddiant i Barti-wladwriaethau a'u mecanweithiau ataliol cenedlaethol). Mae 25 o arbenigwyr annibynnol a diduedd o bob rhan o'r byd yn aelodau o'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau[1].

## Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y DU

Cadarnhawyd OPCAT gan y DU yn Rhagfyr 2003 a dynododd ei NPM ym Mawrth 2009. Roedd dynodi'r NPM yn gyfrifoldeb i lywodraeth y DU a dewisodd ddynodi nifer o gyrff presennol yn hytrach na chreu NPM drwy sefydlu corff newydd. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o fathau o leoedd cadw yn y DU a oedd yn cael eu monitro eisoes gan gyrff annibynnol, mewn ffordd a ragwelwyd yn OPCAT, a bod gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol

[1] http://www2.ohchr.org/English/bodies/cat/opcat/annual.htm

a gweinyddol ar waith yn y pedair gwlad sy'n rhan o'r DU. Wrth benderfynu ar y cyrff presennol a oedd i'w dynodi'n aelodau o'r NPM, roedd y llywodraeth yn mynnu'n benodol fod sail statudol iddynt a'u bod yn gallu ymweld yn ddirybudd â lleoedd cadw. Daeth y llywodraeth i'r casgliad bod 18 o gyrff sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cwrdd â'r gofynion hynny, a chawsant eu dynodi'n ffurfiol mewn datganiad i'r Senedd ar 31 Mawrth 2009. Yn ystod 2012–13, aelodau'r NPM oedd:

### Cymru a Lloegr

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)
Byrddau Monitro Annibynnol (BMAau)
Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)[2]
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (OCC)
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted)

### Yr Alban

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)[3]

### Gogledd Iwerddon

Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA)
Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

Mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y DU yn monitro gwahanol fathau o leoedd cadw yn yr holl awdurdodaethau, gan gynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llysoedd, cyfleusterau cadw'r tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau mewnfudo, cyfleusterau cadw gwasanaethau iechyd meddwl a dalfeydd y lluoedd arfog, fel a ganlyn:

---

2 Er bod ICVA wedi'i rhestru'n sefydliad sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr, mae ei haelodaeth yn cynnwys ymwelwyr annibynnol â dalfeydd sy'n gweithredu yn yr Alban (ICVS). Rhagwelir y bydd ICVS yn cael ei dynodi'n ffurfiol yn aelod ar wahân o'r NPM yn 2013.

3 Roedd rôl yr Arolygiaeth Gofal ar gyfer monitro lleoedd cadw yn swyddogaeth cyn hynny i Gomisiwn yr Alban ar gyfer Rheoleiddio Gofal, neu'r Comisiwn Gofal. Yn Ebrill 2011, cyfunwyd y Comisiwn Gofal, yr Asiantaeth Arolygu Gwaith Cymdeithasol a Chyfarwyddiaeth 6 o Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi i greu Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol yr Alban (a elwir yn 'Arolygiaeth Gofal'). Rhagwelir y bydd yr Arolygiaeth Gofal yn cael ei dynodi'n ffurfiol yn aelod o'r NPM yn lle'r Comisiwn Gofal.

| LLEOLIAD CADW | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Carchardai | HMIP with CQC & Ofsted | HMIP gyda HIW | HMIPS | CJINI a HMIP gyda RQIA |
| | IMB | IMB | | IMBNI |
| Dalfeydd yr heddlu | HMIC & HMIP | HMIC & HMIP | HMICS | CJINI gyda RQIA |
| | ICVA | ICVA | ICVS | NIPBICVS |
| Dalfeydd y llysoedd | HMIP | HMIP | HMIPS | CJINI |
| Plant mewn llety diogel | Ofsted (ar y cyd â HMIP ar gyfer canolfannau hyfforddi diogel) secure training centres) | AGGCC | CI | RQIA |
| | | | | CJINI |
| Cadw o dan gyfraith iechyd meddwl | CQC | AGIC | MWCS | RQIA |
| Amddifadu o ryddid[4] a mesurau diogelu eraill mewn gofal iechyd a chymdeithasol | CQC | AGIC | CI a MWCS | RQIA |
| | | AGGCC | | |
| Dalfeydd mewnfudo | HMIP | HMIP | HMIP | HMIP |
| | IMB | IMB | IMB | IMB |
| Dalfeydd y lluoedd arfog | HMIP a IMB | HMIP & IMB | HMIP a IMB | HMIP a IMB |
| Cyfleusterau cadw'r tollau | HMIC a HMIP | HMIC a HMIP | HMIC a HMIP | HMIC a HMIP |

Yn ogystal â hyn, mae pŵer gan Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (OCC) i fynd i mewn i unrhyw leoliad lle y mae plentyn yn lletya neu'n derbyn gofal, heblaw annedd breifat, a chyf-weld â'r plentyn yn breifat (os bydd y plentyn yn cydsynio). Mae OCC wedi defnyddio'r pŵer hwn i ymweld â sefydliadau cyfiawnder ieuenctid diogel, lleoliadau mewnfudo a chyfleusterau diogelwch canolig.

Aseiniwyd rôl cydgysylltu'r NPM i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a phwrpas y swyddogaeth hon yw:

- hyrwyddo cydlyniant a chyd-ddealltwriaeth o OPCAT ymysg aelodau'r NPM
- hyrwyddo cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arferion da
- Hwyluso gweithgareddau ar y cyd.

Mae cydgysylltydd yr NPM yn cynrychioli buddiannau'r holl aelodau a phwrpas ei rôl yw:

- cydgysylltu â holl aelodau'r NPM
- cynghori aelodau ynghylch sut i weithredu OPCAT yn effeithiol
- rhannu gwybodaeth ag aelodau
- darparu cymorth ar faterion polisi a hawliau dynol
- cydgysylltu â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, mecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill a rhanddeiliaid allanol
- paratoi'r adroddiad blynyddol
- trefnu cyfarfodydd a gweithdai.

Mae cydgysylltu'n hanfodol er mwyn gweithredu OPCAT yn llawn ac yn effeithiol yn y DU, oherwydd maint a chymhlethdod y strwythur anarferol o gyrff lluosog sydd

4 Mae trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig ond bydd sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn arolygu ac yn ymweld â chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol lle y gellir amddifadu pobl o'u rhyddid.

yn y DU, a'r ffaith bod pob un o'r aelodau'n wahanol o ran ei fandad, ei bŵer a'i gyfrifoldeb daearyddol. Ar yr un pryd, rhaid parchu annibyniaeth pob un o aelodau'r NPM, yn ogystal â'u gallu i bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer monitro lleoedd cadw.

Mae'r gofyniad sylfaenol yn OPCAT – bod yr holl leoedd cadw'n cael eu monitro'n annibynnol – yn cael ei gyflawni gan aelodau unigol yr NPM neu gan aelodau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae canfyddiadau manwl ynghylch triniaeth pobl mewn lleoedd cadw, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu cyhoeddi yn adroddiadau arolygu neu adroddiadau blynyddol pob un o aelodau'r NPM.

## Y cyd-destun gwleidyddol a'r amgylchedd polisi

Tynnwyd sylw dro ar ôl tro yn 2012 a 2013 at y rôl a'r cyfrifoldebau sydd gan gyrff cyhoeddus yn y DU i ddiogelu hawliau'r rheini sydd o dan eu gofal. Drwy gyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad cyhoeddus i safonau gofal yn Ymddiriedolaeth Sefydledig Gwasanaeth Iechyd Gwladol Canolbarth Swydd Stafford, amlygwyd nifer o ddiffygion sefydliadol a oedd wedi arwain at esgeuluso cleifion yn rheolaidd a methiant i ddarparu gofal diogel[5]. Yn yr un modd, datgelwyd y cam-drin seicolegol a chorfforol ar bobl sydd ag anableddau dysgu yn ysbyty preifat Winterbourne View, gan amlygu diffygion y dulliau presennol o sicrhau atebolrwydd er mwyn diogelu'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed a sicrhau ymchwiliadau i honiadau o gam-drin[6].

Er nad oeddent wedi digwydd mewn lleoedd cadw fel y cyfryw, roedd y ddau achos brawychus hyn wedi cynnig gwersi i NPM y DU a'i aelodau unigol. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos pa mor bwysig yw swyddogaeth ataliol NPM y DU, gan fod dulliau monitro a rheoleiddio wedi gwneud cam â'r rheini y dylai eu hawliau fod wedi'u diogelu. Mewn ymateb i hyn, mae NPM y DU wedi rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod yr holl leoedd cadw wedi'u cynnwys, yn ogystal â chanoli ei ymdrechion ar y cyd ar faterion sydd heb gael digon o sylw hyd yn hyn.

Oherwydd mesurau ar draws y DU i gyfyngu gwariant cyhoeddus yn 2012–13, mae'r sectorau y mae aelodau'r NPM yn eu harolygu neu eu monitro yn gweithredu ag adnoddau llai o lawer. Mae cyllidebau'r rhan fwyaf o aelodau'r NPM wedi gostwng hefyd yn ystod 2012–13. Ar yr un pryd, mae nifer o ddatblygiadau pwysig yng nghyswllt deddfwriaeth a chynigion polisi sy'n effeithio ar y sectorau y mae NPM y DU yn delio â nhw wedi'u cyflwyno neu'n cael eu trafod. Yn yr Alban, mae Deddf Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân wedi gweddnewid y cyd-destun ar gyfer plismona, drwy gyfuno wyth heddlu mewn un corff. Mae'r strategaeth iechyd meddwl ddiwygiedig ar gyfer yr Alban yn cynnwys nifer o ymrwymiadau newydd, ac yn canolbwyntio ar hawliau pobl sydd â salwch meddwl. Yng Nghymru, cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y Cynulliad Cenedlaethol yn Ionawr 2013. Pwrpas y bil yw rhoi llais cryfach i bobl a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau gofal cymdeithasol y maent yn eu defnyddio. O ran cyfiawnder troseddol, roedd cynigion ar gyfer adolygu trefniadaeth y sefydliadau

5 Adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford, Chwefror 2013. Ar gael yn:
http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

6 http://www.southglos.gov.uk/Pages/Article%20Pages/Community%20Care%20-%20Housing/Older%20and%20disabled%20people/Winterbourne-View-11204.aspx

cadw ar gyfer menywod a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a 'thrawsnewid' canlyniadau adsefydlu, yn destun trafod.

Yn gyffredinol, roedd cyfanswm poblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng o 87,868 ar ddiwedd Mawrth 2012 i 84,596 ar ddiwedd Mawrth 2013, gostyngiad o bron 4%. Cafwyd cynnydd o 4% yn nifer y bobl a oedd yn mynd i ganolfannau cadw mewnfudwyr (28,735) a chynnydd o 6% yn nifer y rheini a oedd yn gadael canolfannau cadw mewnfudwyr (28,761). O'r rheini a adawodd ganolfannau cadw mewnfudwyr, roedd 60% wedi'u hallgludo o'r DU. Ar ddiwedd Mawrth 2013, roedd 2,853 o bobl mewn canolfannau cadw mewnfudwyr, 6% yn llai na'r nifer a gofnodwyd ar ddiwedd Mawrth 2012. Yn chwarter cyntaf 2013, roedd 37 o blant wedi mynd i leoedd cadw, 16 yn llai nag yn chwarter cyntaf 2012. Mae ffigurau rhagamcanol ar gyfer yr Alban yn awgrymu bod poblogaeth ddyddiol gyfartalog o 8,300 yn y carchardai yn 2012–13. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon yn dangos bod poblogaeth o 1,774 mewn carchardai yn 2012. Am fod ystadegau wedi'u camgofnodi cyn hynny, ni fydd ffigurau swyddogol diweddarach yn cael eu cyhoeddi tan 2014.


Yn Lloegr, y nifer a oedd wedi'u cadw mewn ysbytai o dan Ddeddf Iechyd Meddwl ar ddiwedd Mawrth 2013 oedd 16,989, ychydig yn llai (3%) na'r flwyddyn flaenorol. Er hynny, roedd 50,408 wedi'u cadw o dan y ddeddf yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn awgrymu bod pobl yn cael eu cadw am gyfnodau byrrach o dan y ddeddf, ond bod hynny'n digwydd yn amlach[7]. Yn 2012–13 cwblhawyd 11,887 o geisiadau hefyd am amddifadu pobl o'u rhyddid o dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a gyflwynwyd yn 2009–10[8]. Mae hyn yn 4% yn fwy na'r 11,382 o geisiadau o dan y trefniadau yn 2011–12. Yn yr Alban, roedd 3,003 o unigolion yn destun mesurau gorfodol o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn Ionawr 2013, tua un rhan o dair ohonynt yn derbyn triniaeth orfodol yn y gymuned.

Mae mesurau cymunedol wedi'u mabwysiadu fwyfwy ers cyflwyno triniaeth orfodol yn y gymuned yn 2005. Cafwyd 4,651 o gyfnodau newydd o driniaeth orfodol o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn yr Alban, tua 3% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 236 ar gyfer pobl a oedd wedi'u derbyn o dan weithdrefnau troseddol. Dim ond chwarter o'r cyfnodau o driniaeth orfodol a oedd wedi para'n hirach na 28 o ddiwrnodau.

7 Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013) *Inpatients formally detained in hospitals under the Mental Health Act 1983, and patients subject to supervised community treatment: Annual Report, England, 2013.* 30 Hydref 2013.

8 Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013) *Mental Capacity Act 2005, Deprivation of Liberty Safeguards Assessments (England): Annual Report, 2012/2013.* Awst 2013

# Adran dau
# Y bedwaredd flwyddyn



Yn 2012–13, mae holl aelodau NPM y DU wedi parhau i ymweld yn rheolaidd â lleoedd cadw, wedi monitro triniaeth y rhai sy'n cael eu cadw, a'r amodau ar eu cyfer, ac wedi gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol.

Yn yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer yr NPM cyfan, rydym yn nodi gweithgareddau ar y cyd gan yr aelodau, datblygiadau o ran llywodraethu a chydgysylltu yn yr NPM, a meysydd penodol sydd wedi'u datblygu er mwyn gweithredu OPCAT yn effeithiol yn y Deyrnas Unedig. Er ein bod yn tynnu sylw at rai datblygiadau gan aelodau penodol sy'n berthnasol ar gyfer cyflawni rôl yr NPM, mae gweithgareddau penodol aelodau'r NPM, eu canfyddiadau a'u hargymhellion ar gyfer gweithredu, wedi'u cofnodi yn eu hadroddiadau blynyddol eu hunain.

## Strwythur a chydgysylltiad yr NPM

Yn 2012–13, cymerwyd camau gan NPM y DU i wella a chryfhau ei strwythur llywodraethu, er mwyn cydgysylltu'n well rhwng gweithgareddau'r 18 o aelodau, ar y cyd ac yn unigol.

### Cyfarfodydd busnes

Parhawyd i gynnal cyfarfodydd busnes ddwywaith y flwyddyn lle'r oedd yr holl aelodau'n bresennol. Y rhain oedd y prif fforwm o hyd ar gyfer rhannu canfyddiadau allweddol, yr arferion gorau, profiadau a gwersi a ddysgwyd ar ôl monitro gwahanol fathau o leoedd cadw mewn gwahanol awdurdodaethau. Y pynciau penodol a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn 2012–13 oedd:

- cadw 'de facto'
- ataliaeth a defnyddio grym
- marwolaethau yn y ddalfa a rolau monitorau ac arolygwyr
- digwyddiad arfaethedig i nodi pumlwyddiant dynodi NPM y DU
- gwneud argymhellion a'u dilyn
- carcharu pobl ar eu pen eu hunain, arwahanu ac ynysu.

### Grŵp llywio

Ers sefydlu grŵp llywio'r NPM yn Ionawr 2012 – er mwyn hwyluso cydgysylltu a phenderfynu rhwng y cyfarfodydd busnes chwemisol (gweler cylch gorchwyl y grŵp llywio yn Atodiad 3) – mae ei rôl wedi cael ei datblygu a'i chryfhau yn ystod y flwyddyn. Mae pum aelod yn y grŵp llywio, sef yr Arolygiaeth Carchardai fel cydgysylltydd yr NPM, ac un cynrychiolydd dros bob un o'r pedair awdurdodaeth yn y DU. Aelodau'r grŵp llywio yn 2012–13 oedd:

- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)
- Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)

Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r grŵp llywio yn 2012–13 er mwyn datblygu cynllun busnes i'r NPM, yn ogystal â thrafod blaenoriaethau strategol ac ymatebion gan yr NPM i geisiadau gan sefydliadau allanol. Roedd y grŵp llywio hefyd wedi parhau i adolygu'r ffordd y mae aelodau'r NPM yn monitro argymhellion.

### Is-grŵp plant a phobl ifanc

Un datblygiad pwysig yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu is-grŵp thematig o dan yr NPM i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc, yn unol â chynnig gan Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (OCC). Mae aelodau o'r NPM sydd â diddordeb mewn hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw wedi dechrau ar y broses o bennu cylch gorchwyl ac agenda ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae gwaith yr is-grŵp yn cael ei drafod yn fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adran hon (gweler Meysydd â blaenoriaeth, t.22).

## Datblygiadau sy'n ymwneud ag aelodau penodol

Yma rydym yn bwrw golwg yn fyr ar ddatblygiadau pwysig yn rheolaeth, swyddogaethau a dulliau gweithredu aelodau'r NPM sy'n berthnasol i'w cydymffurfiaeth ag OPCAT. Mae adroddiadau llawn am weithgareddau, canfyddiadau ac argymhellion aelodau'r NPM yn eu hadroddiadau blynyddol eu hunain.

### Datblygiadau sefydliadol

Roedd yr Arolygiaeth Gofal (CI) yn yr Alban wedi mabwysiadu strwythur o dimau cenedlaethol ac arbenigol sy'n cynnwys timau ar gyfer pobl ifanc a chyfiawnder troseddol. Bydd y CI yn cael ei dynodi'n ffurfiol yn aelod o'r NPM y flwyddyn nesaf..

Yn Ebrill 2012, lansiwyd proses gorfodi newydd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a oedd yn cynnwys mesurau i gyflymu'r broses ar gyfer delio â diffygion brys a/neu ddifrifol a'i throsglwyddo i lefel uwch. Bydd hyn yn rhoi mwy o allu i AGGCC i adnabod ac ymateb i bryderon sy'n debyg i'r rheini a welwyd yng ngwasanaethau iechyd Canolbarth Swydd Stafford, os byddant yn codi. Mae rhaglen gynhwysfawr AGGCC ar gyfer moderneiddio yn cynnwys arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n canolbwyntio ar bedair thema ansawdd, gan gynnwys 'ansawdd bywyd', sy'n ystyried hawliau, rheolaeth a lles. Mae hefyd yn mabwysiadu'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI), yn enwedig ar gyfer arolygiadau sy'n cynnwys pobl sydd ag anawsterau gwybyddol neu gyfathrebu..

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) wedi gwneud newidiadau sylweddol yn ei arweinyddiaeth ar lefel y Bwrdd a'r weithrediaeth, ac wedi dechrau ad-drefnu gweithgareddau rheoleiddio a monitro.

Yn Hydref 2011, cyhoeddwyd yr Adolygiad o Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon gan y Tîm Diwygio Carchardai (o dan gadeiryddiaeth y Fonesig Anne Owers)[9], a oedd yn cynnwys 40 o argymhellion ar gyfer newid sylfaenol yng Ngwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon. Ers hynny, mae CJINI wedi parhau i asesu ac adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Trosolwg sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog dros Gyfiawnder. Cafwyd cynnydd ac mae nifer o'r argymhellion wedi'u gweithredu, ond mae rhai o'r argymhellion yn ymwneud â materion tymor hwy a bydd CJINI yn parhau i asesu datblygiadau dros amser[10].

### Monitro cleifion sy'n cael eu cadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl

Mae gwaith i helpu pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu i wybod mwy am eu hawliau, yn enwedig wrth gael eu trin o dan bwerau gorfodol, wedi cael ei hyrwyddo gan MWCS a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC), mewn partneriaeth â Llywodraeth yr Alban ac eraill. Roedd hyn yn cynnwys sylw penodol i gleifion sy'n cael eu cadw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl. Er bod cyfraith iechyd meddwl yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol bod ysbytai'n lliniaru'r effeithiau o gadw cleifion ar y gydberthynas â rhieni, cafodd MWCS nad oedd staff yn deall eu cyfrifoldebau. O ganlyniad i hyn, gwnaeth MWCS nifer o argymhellion i wella'r cyswllt rhwng rheini a'u plant.

9 http://www.dojni.gov.uk/index/ni-prison-service/nips-publications/independent-reports-reviews-nips/owers-review-of-the-northern-ireland-prison-service.htm
10 Mae crynodebau o'r adroddiadau hyn ar gael yn: http://www.dojni.gov.uk/index/ni-prison-service/nips-prison-review-oversight-group-reports.htm

Ymchwiliodd MWCS i'r posibilrwydd bod unigolion sydd ag anableddau dysgu sy'n derbyn cymorth dwys parhaus yn y gymuned yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon neu'n ormodol. Prin oedd y dystiolaeth a gafodd o hynny ac roedd yn gallu rhoi adroddiad ffafriol am rai enghreifftiau o ofal da iawn.

Dechreuodd y CQC ar y broses o wella'r cysylltiadau rhwng ei waith o dan Ddeddf Iechyd Meddwl a'i reoleiddio ar wasanaethau iechyd meddwl. Y bwriad oedd diogelu hawliau'r rheini mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, yn enwedig pobl y cyfyngwyd ar eu rhyddid, oherwydd pryderon am eu diogelwch nhw a diogelwch pobl eraill, drwy eu cadw neu eu trin yn groes i'w hewyllys. Bydd hyn yn arwain at fwy o gysondeb rhwng gweithgarwch o dan Ddeddf Iechyd Meddwl ac ymweliadau arolygu, a mwy o gyfraniad gan Arbenigwyr drwy Brofiad[11] wrth fonitro o dan Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yng nghyd-destun ei rôl ar gyfer monitro cleifion sydd wedi'u cadw o dan ddeddfwriaeth iechyd a gofal cymdeithasol fel aelod o'r NPM, comisiynodd y CQC adolygiad cymharol o fecanweithiau monitro mewn gwledydd tramor gan Grŵp Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste. Bydd yr ymchwil a gomisiynwyd yn helpu'r CQC i ddeall y profiadau a geir mewn gwledydd eraill wrth fonitro deddfwriaeth iechyd meddwl er mwyn datblygu ei swyddogaethau ei hun ar sail tystiolaeth ryngwladol a gwybodaeth am yr arferion gorau. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yng nghyfnod yr adroddiad blynyddol nesaf.

## Astudiaeth achos

### Cymryd camau i wella'r monitro ar wasanaethau sy'n gofalu am bobl sydd ag anableddau dysgu

Yn dilyn ymateb y llywodraeth i ddiffygion yn ysbyty Winterbourne View, mae'r CQC wedi rhoi sylw penodol i wasanaethau sy'n gofalu am bobl sydd ag anableddau dysgu. Ar sail ei ymwybyddiaeth o broblemau parhaus yng nghyswllt ansawdd y gofal am bobl sydd ag anableddau dysgu, gan gynnwys cyfnodau hir mewn ysbytai yn bell o'u teuluoedd a chymunedau, mae'r CQC wedi dechrau cydweithio â'r Tîm Gwella ar y Cyd sydd wedi'i ariannu gan yr Adran Iechyd a Chymdeithas Llywodraeth Leol er mwyn hybu asesiadau gan gomisiynwyr o'r holl bobl sydd ag anableddau dysgu sydd yn y system ar hyn o bryd.

Drwy gydol 2012–13, parhaodd y CQC i ddatblygu ei ddull o fonitro trefniadau diogelu rhag colli rhyddid mewn ysbytai a chartrefi gofal. Yn Ionawr 2013, cyhoeddodd y CQC ei drydydd adroddiad blynyddol ar fonitro trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, a bydd ei bedwerydd adroddiad blynyddol yn cyfuno data am weithgarwch ynghylch defnyddio mesurau diogelu o'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCIC), a gwybodaeth a gasglwyd mewn dau arolwg: un o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yng nghyswllt galluedd meddyliol, ac un o awdurdodau lleol yn eu rôl goruchwylio. Bydd rheolwr newydd ar bolisi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol yn rhoi sylw arbenigol i waith monitro'r CQC yn y maes hwn.

11 Mae Arbenigwyr drwy Brofiad yn rhai sydd â phrofiad personol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu o ofalu am rywun sy'n eu defnyddio. Yng nghyd-destun monitro o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, bydd profiad gan Arbenigwyr drwy Brofiad o gael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**Monitorau carchardai yn yr Alban**
Roedd y manteision o ddefnyddio system haenog i fonitro lleoedd cadw – lle y mae monitorau lleyg ac arolygiaethau proffesiynol yn ategu gwaith ei gilydd drwy ddulliau gwahanol o fonitro yn yr un sefydliadau – wedi'u disgrifio yn adroddiad blynyddol yr NPM ar gyfer 2011–12. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei bod am ddiddymu pwyllgorau ymweliadau carchardai. Pwysodd yr NPM ar Lywodraeth yr Alban i sicrhau na fydd y cynigion hyn yn lleihau'r amddiffyniad i garcharorion, ac y byddant yn ystyriol o rwymedigaethau o dan OPCAT. Mewn ymateb i hyn, comisiynodd Llywodraeth yr Alban adolygiad o gynigion ar gyfer monitro carchardai, gan gynnwys eu cysondeb â gofynion OPCAT, i'w gynnal gan yr Athro Andrew Coyle, Athro Astudiaethau Carchardai yn King's College, Llundain. Yn yr adolygiad hwn, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2013, roedd argymhellion penodol i sicrhau y bydd trefniadau monitro yn y dyfodol yn annibynnol[12]. Ei argymhellion oedd:

- bod system newydd o fonitorau carchardai annibynnol gwirfoddol yn cymryd lle'r pwyllgorau ymweliadau, a bod y monitorau hynny'n cael eu penodi drwy broses dryloyw am gyfnodau penodol, bod eu rôl yn cael ei diffinio'n glir, a bod hyfforddiant, adnoddau a chymorth priodol yn cael eu darparu o ffynonellau heblaw Gwasanaeth Carchardai'r Alban
- bod monitorau ar gyfer pob carchar yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion yr Alban i'w gyhoeddi
- bod cyngor o fonitorau carchar annibynnol yn cael ei ffurfio, a fydd yn cynnwys un monitor o bob carchar
- bod y pwyllgor ymweliadau ar gyfer y naw set o gelloedd heddlu a gyfreithlonwyd yn cael eu diddymu a bod eu swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.

Rhoddodd NPM y DU ei gefnogaeth i adolygiad Coyle ac anogodd Lywodraeth yr Alban i ystyried gweithredu'r argymhellion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag OPCAT.

Cafwyd ymateb gan Lywodraeth yr Alban a oedd yn nodi ei bwriad i ddiwygio'r trefniadau annibynnol i fonitro carchardai er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau, gan gwrdd â rhwymedigaethau o dan OPCAT.

Penderfynodd y bydd Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMCIPS) yn goruchwylio monitro annibynnol ar garchardai yn y dyfodol. Cadarnhaodd y byddai hyn yn rhoi cyfle i integreiddio'r trefniadau arolygu a monitro'n effeithiol, mewn ffordd sy'n cadw swyddogaethau gwahanol (ond ategol) y ddau. Nododd Llywodraeth yr Alban hefyd mai rhai o fanteision y trefniadau newydd oedd arweinyddiaeth genedlaethol gadarnach, ac effaith a phroffil y monitro, o ystyried annibyniaeth hirsefydlog yr Arolygydd, a'i allu i fynd at Weinidogion, y Senedd a'r cyfryngau.

Cynigiodd Llywodraeth yr Alban y bydd HMCIPS, er mwyn gweithredu'r trefniadau newydd, yn cyflogi pedwar monitor carchardai rhan-amser, a gaiff gymorth gan fonitorau lleyg, a fydd yn gysylltiedig â phob carchar ac yn cynrychioli'r gymuned. Wrth adolygu'r swyddogaeth monitro, byddai HMCIPS yn cael cymorth gan grŵp cynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o'r sector cyfiawnder ac yn rhoi arweiniad ar fonitro, penodi a hyfforddiant.

12 The Scottish Government. *Review of Proposals to Improve Arrangements for Independent Monitoring of Prisons* (The Coyle Review), Ionawr 2013. At: http://www.scotland.gov.uk/Resource/0041/00414197.pdf

**Astudiaeth beilot ar gofnodi'r defnydd o rym gan Wasanaeth Heddlu Llundain**

Ar ôl cael cais gan y Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa, cafwyd negodi rhwng y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn Llundain a Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu er mwyn trefnu i'w ymwelwyr gynnal arolwg peilot un mis o hyd i weld pa mor effeithiol y mae Gwasanaeth Heddlu Llundain wrth gofnodi'r defnydd o rym. Roedd y cais wedi'i wneud yn sgil pryderon nad yw gwybodaeth am y defnydd o rym yn nalfeydd Gwasanaeth Heddlu Llundain yn cael ei choladu ar lefel leol neu lefel y gwasanaeth cyfan (gan fod cyfarwyddyd gan y llywodraeth yn 2010 er mwyn lleihau biwrocratiaeth wedi dileu'r gofyniad i gofnodi'r defnydd o rym/ataliaeth ar ffurf safonol neu ganolog). Cynhaliwyd yr astudiaeth beilot gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ystod arolygiadau wythnosol dirybudd drwy ddefnyddio holiaduron. Dychwelwyd 252 o holiaduron ar ôl 400 o gysylltiadau â rhai yn y ddalfa. Mewn 145 o'r rhain, nodwyd bod mesurau atal wedi'u defnyddio, a gefynnau oedd y dull atal mwyaf difrifol mewn 127 o achosion. Cofnodwyd 23 o anafiadau o ganlyniad i fesurau atal. Ar naw achlysur lle'r oedd mesurau atal wedi'u defnyddio, nid oedd cofnod o hynny yng nghofnod y ddalfa. Mewn pum achos lle y cafwyd anaf wrth ddefnyddio mesurau atal, nid oedd cofnod o'r driniaeth a roddwyd.

Cafwyd argymhelliad i gynnal arolwg pellach dros gyfnod hirach ac mewn mwy o ardaloedd heddlu.

## Sicrhau sylw llawn i'r holl leoedd cadw, OPCAT Erthygl 4.2

Mae NPM y DU yn ceisio sicrhau ymweliadau â'r holl leoedd cadw yn y DU yn unol â darpariaethau OPCAT. Mae hyn yn galw am ddal sylw'n barhaus ar newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth sy'n effeithio ar arferion cadw a mandadau aelodau'r NPM. Rhai o'r datblygiadau newydd yn ystod y flwyddyn yw:

- ymweliadau â phlant a phobl ifanc mewn unedau diogelwch canolig gan yr OCC (Lloegr)
- monitro cartrefi diogel ar gyfer plant a phobl eraill gan y CI (Yr Alban)
- cytundeb i gynnwys celloedd heddlu sydd heb eu dynodi yng Ngogledd Iwerddon yng nghylch gwaith Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
- arolygu cyfleusterau yn nalfeydd y llysoedd yng Nghymru a Lloegr gan HMIP
- monitro hebryngwyr i wledydd tramor gan Fyrddau Monitro Annibynnol (BMAau) a HMIP (y DU).

Dechreuodd yr OCC ymweld ag unedau diogelwch canolig (unedau fforensig diogel cenedlaethol) sy'n darparu triniaeth iechyd meddwl fforensig i gleifion mewnol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 12 a 19 oed. Cafwyd ymweliadau ar ôl rhoi rhybudd â phedair uned, ac roedd yr OCC yn fodlon iawn at ei gilydd ar safonau'r gofal a'r driniaeth ar gyfer pobl ifanc. Cafodd fod yr addysg o ansawdd uchel ac roedd o'r farn y byddai'r dulliau therapiwtig a dulliau seiliedig ar les yn fanteisiol mewn lleoliadau cadw eraill. Rhoddwyd argymhellion i wella arferion ymhellach yn y meysydd canlynol: rhoi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau; gwylio rhag bwlio agored a chudd ac annog pobl ifanc i roi gwybod amdano; sicrhau bod yr holl staff yn gallu derbyn hyfforddiant craidd; safoni termau ac arferion yng nghyswllt neilltuo; ac arferion sy'n ymwneud â throsglwyddo i mewn ac allan o amgylcheddau gofal uchel yn yr holl unedau.

O dan ei gylch gwaith newydd, dechreuodd y CI fonitro cartrefi diogel ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â gwasanaethau preswyl eraill yn yr Alban.

Yn Chwefror 2013, cafwyd argymhelliad ffurfiol yn nhrydydd adroddiad blynyddol yr NPM ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder dros Ogledd Iwerddon i gynnwys celloedd heddlu sydd heb eu dynodi yng Ngogledd Iwerddon yng nghylch gwaith NIPBICVS. Rhoddwyd pob cefnogaeth i'r argymhelliad hwn gan Fwrdd Plismona Gogledd Iwerddon ac mae Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon wedi cytuno i ystyried diwygio deddfwriaeth i sicrhau hyn yn ystod 2014–15. Yn y cyfamser, mae NIPBICVS yn parhau i fonitro nifer a lleoliad y bobl sy'n cael eu cadw mewn dalfeydd sydd heb eu dynodi. Ar ôl nodi yn 2011 nad oedd unrhyw drefniadau annibynnol i arolygu neu fonitro dalfeydd y llysoedd yng Nghymru a Lloegr – yn yr Alban a Gogledd Iwerddon maent yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Carchardai'r Alban (HMIPS) a CJINI – gofynnodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder i HMIP ddatblygu rhaglen ar gyfer arolygu'r cyfleusterau hyn. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2012. Yn unol â'i methodoleg bresennol ar gyfer arolygu, mae HMIP wedi datblygu set o Ddisgwyliadau sy'n disgrifio safonau'r driniaeth a'r amodau sydd i'w sicrhau ym mhob un o ddalfeydd y llysoedd ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw ynddynt. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n dri maes arolygu: arweinyddiaeth, strategaeth a chynllunio; hawliau unigol; a thriniaeth ac amodau. Maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau.

Gan ddechrau yn 2012–13, cwblhawyd arolygiadau gan HMIP yn Llysoedd y Goron ac mewn llysoedd ynadon sydd â dalfeydd mewn pedwar rhanbarth: Cleveland, Durham a Northumbria; Glannau Mersi a Swydd

### Astudiaeth achos – dalfeydd y llysoedd

Roedd yr arolygiad yn rhanbarth Cleveland, Durham a Northumbria yn cynnwys ymweliadau â phedwar adeilad Llys y Goron a 12 adeilad llys ynadon sydd â dalfeydd gweithredol. Roedd yr arolygiad llawn cyntaf hwn o ddalfeydd mewn ardal llysoedd yn dangos bod staff y dalfeydd yn gwneud eu gorau i ofalu am rai yn y ddalfa, o dan amodau gwael mewn llawer achos, a heb ddulliau digonol o asesu a rheoli risg, a diwallu anghenion dilys. Bydd angen gwariant cyfalaf i wella adeiladau, ond mae llawer y gellir ei wneud heblaw hynny. Roedd yr arolygiad yn dangos:

- Bod rhai'n cael eu dal am gyfnodau cymharol hir weithiau cyn gwrando eu hachos am fod llysoedd yn rhoi blaenoriaeth i achosion eraill, ac ar ôl yr achos am ei bod yn cymryd amser i garchardai gadarnhau nad oes unrhyw rwystr arall rhag eu rhyddhau. Er hynny, roedd yn dda nodi nad oedd llysoedd yn gosod terfyn amser ar gyfer hyn.
- Yn y rhan fwyaf o leoedd, nad oedd rhai yn y ddalfa yn cael gwybodaeth glir am eu hawliau na'r ffordd o wneud cwyn, ac nad oedd y gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn wedi'i ddefnyddio o gwbl bron.
- Bod cyflwr corfforol y celloedd mewn un cyfleuster yn druenus, ac yn wael mewn pedwar safle arall. Mewn nifer o leoedd, nid oedd carcharorion yn cael eu cadw o olwg y cyhoedd pan oeddent mewn gefynnau, yn enwedig wrth ddod allan o faniau ac, yn achos y rheini sydd ag anableddau yn neilltuol, wrth gael eu hebrwng i mewn ac allan o'r llys.
- Bod staff yn gwrtais a chymwynasgar gan mwyaf wrth ddelio â rhai yn y ddalfa, er bod nifer yn trin 'wynebau cyfarwydd' fel rhai nad oedd angen rhoi llawer o sylw unigol iddynt.

- Bod y wybodaeth ar gyfer carcharorion a oedd yn cyrraedd yn dda at ei gilydd. Er bod gofal sylweddol yn cael ei ddangos tuag at rai carcharorion sy'n agored i niwed, nid oedd asesiad risg trwyadl ar y dechrau.
- Nad oedd menywod a phlant bob amser yn cael eu cadw ar wahân, fel yr oedd yn briodol, oddi wrth brif boblogaeth y carcharorion, mewn faniau nac ym mannau'r celloedd, a phrin oedd y ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd ag anableddau neu anghenion sy'n gysylltiedig â ffydd.
- Bod gweithdrefnau chwilio a gefynnu yn cael eu dilyn fel mater o drefn yn hytrach nag mewn cysylltiad â risg, ac nad oeddent bob amser yn gyson; roedd rhai o'r arferion gefynnu yn codi ystyriaethau o ran diogelwch. Nid oedd fawr o ddefnydd o rym.
- Bod gwasanaethau iechyd meddwl yn y dalfeydd yn dda, gan gynnwys gwasanaethau dilynol ar ôl bod yn y ddalfa yn rhan ddeheuol yr ardal, a bod cynllun yn cael ei dreialu yn y gogledd lle'r oedd staff yn mynd i'r llys gyda rhai a oedd yn y ddalfa..

Mae adroddiad llawn yr arolygiad ar gael yma: http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/inspectorate-reports/hmipris/court-custody-facilities-inspections/cleveland-durham-northumbria-201

Gaer; Swydd Gaerhirfryn a Cumbria; a Swydd Nottingham a Swydd Derby. Un duedd gyffredinol yn y canfyddiadau oedd bod diffyg ymwybyddiaeth yn aml ymysg rheolwyr llys yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi o'r ffordd yr oedd celloedd yn cael eu rhedeg a sut yr oedd rhai yn y ddalfa yn cael eu trin. Nododd HMIP hefyd fod diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ofal y rhai yn y ddalfa sy'n codi o drefniadau contractiol rhwng Gwasanaethau Hebrwng a Dalfeydd Carcharorion y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a chontractwyr hebrwng a dalfeydd y llysoedd.

Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol diwethaf yr NPM, roedd y BMAau a HMIP wedi dechrau monitro ac arolygu hebryngwyr i wledydd tramor yn 2011. Gwelwyd tystiolaeth o'r angen am fonitro annibynnol ar hebryngwyr i wledydd tramor ar ôl achos trist Jimmy Mubenga a fu farw mewn awyren wrth gael ei atal gan staff hebrwng a oedd yn ei allgludo o'r DU i Angola yn Hydref 2010.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, cynhaliodd HMIP dri arolygiad o garcharorion a oedd yn cael eu hebrwng, i Affganistan (Mehefin 2012), Ghana (Mawrth 2013), a Sri Lanka (Rhagfyr 2012). Yn ystod yr un cyfnod, roedd BMAau wedi monitro tri charcharor a oedd yn cael eu hebrwng i Ghana, Nigeria ac Affganistan.

Roedd y canfyddiadau'n awgrymu bod gweithdrefnau hebrwng wedi'u trefnu'n dda, at ei gilydd, a bod hebryngwyr yn delio â charcharorion mewn ffordd sensitif ac effeithiol. Er hynny, mynegwyd pryderon nad oedd digon yn cael ei wneud i leddfu straen ar garcharorion, a bod defnydd anghymesur o rym ac ataliaeth, ac enghreifftiau o ymddygiad amhroffesiynol gan hebryngwyr a oedd yn defnyddio iaith dramgwyddus iawn o flaen carcharorion a phobl eraill. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ymddygiad ymosodol tuag at garcharorion gan swyddogion y wlad dramor ar ôl cyrraedd yno, yn ogystal â diffyg gwybodaeth am wledydd cartref i'w helpu i baratoi ar gyfer dychwelyd. Roedd HMIP yn pryderu hefyd nad oedd gweithdrefnau diogelwch cydnabyddedig ar gyfer defnyddio mesurau atal mewn mannau cyfyng mewn awyren.

Yn yr un modd â HMIP, rhoddodd BMAau wybod am enghreifftiau o ddefnyddio iaith dramgwyddus o flaen carcharorion. Cawsant hefyd fod gormod o amser rhwng rhyddhau'r carcharor o'r ganolfan gadw mewnfudwyr a byrddio'r awyren. Er hynny, ar nodyn mwy cadarnhaol, gwelsant fod y trefniadau'n cael eu rhedeg yn weddol dda, a bod llawer o sylw i garcharorion a'u pryderon, gan y tîm mewnfudo a'r contractwr hebrwng i wledydd tramor.

Rhai o'r argymhellion oedd:

- bod Asiantaeth Ffiniau'r DU (y mae ei chyfrifoldebau'n cael eu cyflawni'n uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref bellach) yn sicrhau bod staff hebrwng yn derbyn hyfforddiant i'w hachredu'n llawn ar gyfer defnyddio grym mewn unrhyw sefyllfa a all godi, yn enwedig ar fwrdd awyren – yn y cyfamser, bod rheolwyr yn craffu'n fanwl ar unrhyw dechnegau ad hoc a ddefnyddir i sicrhau eu bod yn ddiogel a chymesur a'u bod yn cael eu defnyddio at ddibenion penodol yn unig ar sail asesiad risg
- y bydd un o gynrychiolwyr Asiantaeth Ffiniau'r DU yn bresennol pan fydd y carcharor yn gadael y ganolfan er mwyn delio ag unrhyw gwestiynau munud olaf ynghylch mewnfudo
- bod staff hebrwng yn derbyn hyfforddiant diweddaru rheolaidd ar amddiffyn plant drwy gytundeb â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant
- bod staff yn rhoi eu prif sylw i garcharorion drwy gydol y broses allgludo
- na fydd staff yn gwneud galwadau personol nac yn anfon negeseuon testun wrth hebrwng carcharorion
- na fydd carcharorion yn cael eu chwilio dro ar ôl tro nac yn aros yn hir mewn coetsys y tu allan i derfynfeydd
- bod pob carcharor yn cael ei hysbysu mewn iaith y mae'n ei deall ei fod yn gallu ffonio cynghorydd cyfreithiol neu gysylltwyr allweddol eraill
- y bydd carcharorion yn cael digon o feddyginiaeth i bara am gyfnod rhesymol nes byddant yn gallu gweld ymarferydd gofal iechyd ym mhen y daith.

Bydd NPM y DU yn parhau i fonitro'r ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin wrth eu hebrwng i wledydd tramor i sicrhau eu bod yn cael eu hebrwng yn ddiogel a'u trin yn deg o dan amgylchiadau anodd iawn, ac i sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu.

## Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth, OPCAT Erthygl 19(c)

Yn unol ag Erthygl 19(c) o OPCAT, rhaid i fecanweithiau ataliol cenedlaethol fod â'r gallu i gyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft. Yn ystod y flwyddyn, mae aelodau'r NPM, yn unigol ac ar y cyd, wedi cyflwyno sylwadau ar nifer o gynigion ar gyfer polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â thriniaeth ac amodau mewn lleoedd cadw o dan eu priod awdurdodaethau.

Cyflwynodd yr NPM dystiolaeth ar ran yr holl aelodau mewn ymateb i alwad am dystiolaeth gan Bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban ar Fesur Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân (Yr Alban) – Pennod 16 (Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd). Roedd goblygiadau'r diwygiadau yng nghyswllt ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn yr Alban, o ran cydymffurfio ag OPCAT, yn cyfiawnhau ymateb ar y cyd gan yr NPM.

Mae aelodau unigol o'r NPM wedi cymryd rhan mewn nifer mawr o brosesau sy'n ymwneud â pholisi a deddfwriaeth, ac mae'r prif enghreifftiau wedi'u nodi isod.

- Mae AGGCC wedi cefnogi Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar 28 Ionawr 2013, gan y byddai'n rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Mae MWCS wedi hwyluso ymgyngoriadau ynghylch dyfodol y tribiwnlys iechyd meddwl mewn strwythur newydd arfaethedig, a hefyd wedi cyflwyno ei argymhellion ei hun. Derbyniwyd y rhain gan Lywodraeth yr Alban ac maent bellach yn rhan o'r mesur sy'n mynd drwy Senedd yr Alban.
- Hwyluswyd adolygiad hefyd gan MWCS ynghylch gweithredu deddfwriaeth i ganiatáu apelio yn erbyn diogelwch gormodol i bobl sydd wedi'u cadw mewn ysbytai heblaw ysbytai'r wladwriaeth. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno cynigion ac mae MWCS wedi cynnig ei sylwadau ei hun ar y rhain wedyn.
- Mae'r CI wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth yr Alban ac asiantaethau sy'n bartneriaid iddi i ystyried strwythur Cyfiawnder Cymunedol yn yr Alban a'r ffordd y bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno.
- Ymatebodd y BMAau i ymgynghoriad cynhwysfawr yr Ombwdsmon Ewropeaidd ar weithrediad Frontex, gan gyfeirio'n benodol at dresmasu ar hawliau dynol a'r ffaith nad oes gweithdrefn gwynion gredadwy.
- Yn Ionawr 2013, cyflwynwyd trydydd adroddiad blynyddol y CQC ar fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl i'r Senedd. Cafwyd cyfeiriadau niferus at yr adroddiad yn y craffu ôl-ddeddfu gan y Pwyllgor Dethol ar Iechyd ar Ddeddf Iechyd Meddwl 2007[13].
- Mae'r Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA) wedi cydweithio â'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd, sy'n paratoi Mesur Galluedd Meddyliol drafft ar gyfer Gogledd Iwerddon a fydd yn destun ymgynghori y flwyddyn nesaf.
- Darparodd HMIPS dystiolaeth a sylwadau i Bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban ar ei adroddiad blynyddol 2011–12, gan roi gwybodaeth bellach wedyn am gelloedd heddlu a gyfreithlonwyd, a hefyd ar y Mesur Carchardai (Ymyrraeth â Thelegraffi Di-wifr) (deddfwriaeth Senedd y DU), a'r craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth yr Alban ar gyfer 2013–14 ynghylch ariannu i ymateb i ganfyddiadau'r Comisiwn ar Droseddwyr sy'n Fenywod. Cymerodd ran hefyd mewn sesiwn dystiolaeth ar ofal iechyd mewn carchardai, ac ymgynghoriad gan Wasanaeth Llysoedd yr Alban ar gynigion ar gyfer *strwythur llysoedd at y dyfodol*.
- Gwnaeth SHRC argymhellion ar Bennod 16 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân (Yr Alban) 2012 i sicrhau cydymffurfiaeth ag OPCAT ac i roi sylw dyladwy i ganllawiau'r Is-bwyllgor Atal Arteithio ar fecanweithiau ataliol cenedlaethol wrth roi ymweliadau annibynnol â dalfeydd ar sail statudol (Adran 91)[14].
- Rhoddodd yr OCC dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin i'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ac i ymgynghoriad Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin ar y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drafft. Ymatebodd hefyd i ymgynghoriad Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a

**13** http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmhealth/584/58402.htm
**14** http://www.scottishhumanrights.com/publications/consultationresponses/article/policereformsubmission2012
**15** Y Gymdeithas er Atal Arteithio (2012) 'Mitigating the risks of Sanctions related to Detention Monitoring' *Briefing No4*. Yn: http://www.apt.ch/content/files_res/Briefing4_en.pdf

Throseddu ar Gynllun Heddlu a Throseddu 2013–17; i ymgynghoriad gan yr Adran Addysg ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol tuag at blant sy'n derbyn gofal ar ôl eu remandio; a chyflwynodd sylwadau i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio ar gyfer ei adolygiad cyfnodol o'r DU.

- Rhoddodd HMIP dystiolaeth i ymchwiliadau'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i gyfiawnder ieuenctid; i droseddwyr sy'n fenywod; ac i garcharorion hŷn, a hefyd i ymgynghoriad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu i'r dull o ymchwilio i farwolaethau ar ôl dod i gysylltiad â'r heddlu.

## Meysydd â blaenoriaeth

**Sancsiynau (OPCAT Erthygl 21)**

Yn y cyfarfod busnes cyntaf yn 2013, penderfynwyd cynnwys sancsiynau yn bwnc ar agenda NPM y DU. Mae 'sancsiynau' yn golygu unrhyw gosb a all godi o ganlyniad i gysylltiad rhwng rhywun sydd mewn lle cadw a monitor annibynnol. Mae'n derm cyffredinol sy'n cwmpasu'r hyn sy'n cael ei alw'n aml yn 'ddial', pan fydd gwarchodwyr neu awdurdodau cadw yn cymryd camau cosbol yn erbyn rhai mewn dalfa sydd wedi rhoi adroddiad i fonitorau annibynnol[15].

### Darpariaethau OPCAT sy'n berthnasol i sancsiynau

#### Erthygl 15

Ni fydd unrhyw awdurdod neu swyddog yn gorchymyn, yn cymhwyso, yn caniatáu neu'n goddef unrhyw sancsiwn yn erbyn unrhyw berson neu sefydliad am roi i'r Is-bwyllgor Atal neu ei ddirprwyon unrhyw wybodaeth, boed yn wir neu'n anwir, ac ni fydd unrhyw berson neu sefydliad o'r fath yn cael ei niweidio mewn unrhyw ffordd.

#### Erthygl 21

Ni fydd unrhyw awdurdod neu swyddog yn gorchymyn, yn cymhwyso, yn caniatáu neu'n goddef unrhyw sancsiwn yn erbyn unrhyw berson neu sefydliad am roi i'r mecanwaith ataliol cenedlaethol unrhyw wybodaeth, boed yn wir neu'n anwir, ac ni fydd unrhyw berson neu sefydliad o'r fath yn cael ei niweidio mewn unrhyw ffordd.

Mae'r Is-bwyllgor Atal Arteithio wedi egluro'r rhwymedigaeth sydd ar Barti-wladwriaethau, o dan OPCAT, i sicrhau na fydd dial ar ôl ei ymweliadau ef neu ymweliadau gan fecanweithiau ataliol cenedlaethol[16,17]. Mae aelodau wedi cytuno y byddant yn ystyried y trefniadau y maent wedi'u rhoi ar waith i reoli chwythwyr chwiban a dial yn erbyn rhai mewn lleoedd cadw, staff neu ofalwyr sy'n cyfathrebu â nhw.

**16** Y Pwyllgor yn erbyn Arteithio (2013). *Statement of the Committee against Torture on reprisals,* adopted at its fifty-first session (28 October–22 November 2013). CAT/C/51/3. Yn: http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CAT%2fC%2f51%2f3&Lang=en

**17** Is-bwyllgor Atal Arteithio (2010) *Guidelines on national preventive mechanisms.* CAT/OP/12/5. Yn: http://www2.ohchr.org/english/bodies/cat/opcat/docs/SPT_Guidelines_NPM_en.doc

Er nad oes lle i gredu bod hyn yn broblem gyffredin yn y DU, mae tystiolaeth o arolygiadau HMIP yn awgrymu bod achosion prin lle y mae carcharorion/rhai mewn lleoedd cadw wedi bod yn destun sancsiynau anffurfiol sydd heb eu hawdurdodi am ymgysylltu â thimau arolygu, neu er mwyn atal ymgysylltu o'r fath. Mae hyn yn peri pryder yn benodol yng nghyswllt carcharorion sydd heb gymhwysedd i eirioli drostynt eu hunain.

Oherwydd yr angen i gymryd camau ataliol ar fater sancsiynau ac i ymateb yn glir i unrhyw achosion sy'n codi, penderfynwyd llunio protocol ar y cyd rhwng y BMAau, HMIP ac Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf. Bydd y protocol yn pennu'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cydweithio rhwng y sefydliadau hyn i amddiffyn unrhyw garcharor/person mewn lle cadw rhag sancsiynau neu fathau eraill o niwed os bydd ef, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, yn cyfathrebu â nhw. Bydd yn rhoi sicrwydd i garcharorion/rhai mewn lleoedd cadw y gallant gyfathrebu'n rhydd â phob sefydliad heb ofni sancsiynau neu fathau eraill o niwed. Ar ôl cwblhau'r protocol hwn, rhagwelir y bydd yn cael ei ddefnyddio fel templed gan aelodau eraill o'r NPM.

### Plant a phobl ifanc

Gan gydnabod yr heriau penodol y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu mewn lleoedd cadw yn y DU, a'r angen i rannu arbenigedd ac arferion da rhwng aelodau'r NPM, sefydlwyd is-grŵp ar gyfer plant a phobl ifanc ar ddechrau 2013, o dan gadeiryddiaeth yr OCC.

Mae plant mewn lleoedd cadw yn y DU yn agored iawn i niwed – oherwydd eu hoed a'u gallu; eu statws fel rhai sy'n cael eu cadw; ac, mewn llawer achos, oherwydd nodweddion unigol fel salwch meddwl, niwroanabledd,[18] ymddieithrio cyn hynny oddi wrth rieni/gofalwyr (er enghraifft, o ganlyniad i achosion gofal neu am eu bod wedi mudo i'r DU ar eu pen eu hunain neu ar wahân i'w rhieni) neu am eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Byddant yn cael eu cadw mewn lleoliadau o bob math, gan gynnwys dalfeydd cyfiawnder ieuenctid, dalfeydd yr heddlu, cyfleusterau iechyd meddwl fforensig diogel, gofal diogel ac, yng nghyd-destun mewnfudo, mewn porthladdoedd, mewn dalfeydd tymor byr ac mewn canolfannau cadw mewnfudwyr. Hyd yn oed o fewn rhai o'r categorïau penodol, mae lleoliadau o lawer math – rhai wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer plant (neu , yn achos canolfannau cadw mewnfudwyr, teuluoedd) ac eraill wedi'u haddasu o fodel ar gyfer oedolion.

Mae trosolwg yr NPM ar y lleoliadau hyn yn cael ei arwain gan nifer o wahanol aelodau o'r NPM sy'n gyfrifol am eu harolygu: yn Lloegr yn unig, mae hyn yn cynnwys HMIP a BMAau ar gyfer sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau cadw mewnfudwyr a dalfeydd y llysoedd; Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) a HMIP ar y cyd ar gyfer dalfeydd yr heddlu; Ofsted a HMIP ar y cyd ar gyfer canolfannau hyfforddi diogel; Ofsted ar gyfer cartrefi plant diogel; y CQC ar gyfer cyfleusterau iechyd meddwl fforensig diogel a gwasanaethau iechyd meddwl eraill ar gyfer plant a'r glasoed[19]. Mae'r gwahanol

**18** Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2012) *Nobody made the connection: The prevalence of neurodisability in young people who offend.* Llundain: Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Yn: http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_633

**19** Mae Ofsted a CQC yn arolygu darpariaethau ar gyfer addysg ac iechyd, yn y drefn honno, mewn lleoliadau lle y mae aelod arall o'r NPM yn brif arolygiaeth.

sefydliadau ymwelwyr lleyg hefyd yn gyfrifol am wahanol sefydliadau. Mae aelodau eraill yr NPM, gan gynnwys yr OCC, yn cyflawni swyddogaeth sy'n cynnwys ymweld â gwahanol leoliadau – ond nid ydynt yn cael dyblygu swyddogaethau'r arolygiaethau.

Mae'r darlun yn un cymhleth a rhaid i'r NPM ateb yr her o sicrhau bod triniaeth a chosbau creulon, annynol a diraddiol yn cael eu hatal yn yr holl leoliadau hyn. Mae cyfraith ryngwladol yn cydnabod y statws, anghenion a hyglwyfedd penodol sydd gan blant a gedwir drwy roi gwarantau penodol sy'n ychwanegol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (UNCAT) a'i Brotocol Dewisol, a chytuniadau cyffredinol eraill ar hawliau dynol.

## Safonau cyfreithiol rhyngwladol sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw

Mae'r corff o gyfraith ryngwladol sy'n ymwneud â phlant sy'n cael eu cadw yn cynnwys gwarantau penodol i blant – fel yr hawl i gael eu gwahanu oddi wrth oedolion mewn lleoedd cadw oni bai nad yw hynny er lles iddynt – a fersiynau cryfach o'r egwyddorion sy'n gymwys i oedolion, sy'n cydnabod angen plant am amddiffyniad a thriniaeth arbennig sy'n briodol i'w hoedran. O ran y gwaharddiad penodol ar arteithio a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol, derbynnir y gall triniaeth fod yn greulon, annynol neu ddiraddiol i blentyn pan na fyddai o reidrwydd i oedolyn.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ailadrodd y gwaharddiad yn UNCAT ar arteithio a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall, ac yn darparu gofynion ychwanegol ar gyfer plant sy'n cael eu cadw (Erthygl 37):

- Na fydd y gosb eithaf na charcharu am oes heb y posibilrwydd o ryddhau yn cael eu gosod yn gosbau am droseddau sydd wedi'u cyflawni gan bersonau o dan ddeunaw mlwydd oed
- Wrth arestio, cadw neu garcharu plentyn, rhaid cydymffurfio â'r gyfraith a dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bob mesur posibl arall y bydd hyn yn digwydd, ac am y cyfnod byrraf sy'n briodol
- Rhaid trin plant sy'n cael eu cadw mewn modd sy'n ystyriol o anghenion personau o'u hoed. Rhaid eu gwahanu oddi wrth oedolion oni bai fod lle i gredu na fyddai hynny er budd pennaf y plentyn a rhaid iddo gael yr hawl i gadw mewn cysylltiad

â'i deulu drwy ohebu ac ymweliadau, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol
- Yr hawl i gael cymorth cyfreithiol a chymorth priodol arall yn ddi-oed, yn ogystal â'r hawl i herio cyfreithlondeb yr amddifadiad o'i ryddid o flaen llys neu awdurdod arall sy'n gymwys, yn annibynnol ac yn ddiduedd, ac i gael penderfyniad yn ddi-oed ar unrhyw achos o'r fath.

Hawliau eraill yn CCUHP sy'n fesurau diogelu pwysig rhag arteithio a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall yw: yr hawl i fywyd a'r fagwraeth orau posibl; iechyd; peidio â chael ei wahanu oddi wrth rieni oni bai fod hynny er budd pennaf y plentyn; rhyddid oddi wrth drais, esgeuluster a cham-drin; ac i gael gwrandawiad i'w farn ac i bwys dyladwy gael ei roi ar ei farn ym mhob mater sy'n effeithio arno (Erthyglau 6, 24, 9, 12, 19).

Mae safonau pellach wedi'u datblygu yn y dogfennau canlynol:

- Sylwadau Cyffredinol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar Drin Plant sy'n Ddigwmni ac wedi'u Gwahanu y Tu Allan i'r Wlad y Daethant Ohoni
- Sylwadau Cyffredinol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar Hawliau Plant mewn Cyfiawnder Ieuenctid
- Sylwadau Cyffredinol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar yr Hawl i Ryddid oddi wrth Bob Math o Drais
- Rheolau'r Cenhedloedd Unedig ar Amddiffyn Pobl Ifanc sydd wedi'u Hamddifadu o'u Rhyddid
- Rheolau Sylfaenol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweinyddu Cyfiawnder Ieuenctid ('Rheolau Beijing')
- Safonau'r Pwyllgor Atal Arteithio ar gyfer Pobl Ifanc sydd wedi'u Hamddifadu o'u Rhyddid
- Canllawiau Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop ar Gyfiawnder sy'n ystyriol o blant.

Oherwydd natur y lleoedd cadw i blant yn y DU – mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws yr awdurdodaethau – mae'n bwysig bod aelodau'r NPM yn gweithio'n gyson i adnabod heriau cyffredin, rhannu arferion da a gwneud argymhellion. Drwy ganolbwyntio ar anghenion penodol plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw, bydd yr is-grŵp plant a phobl ifanc yn helpu'r NPM i gyflawni ei rôl atalio[20] drwy rannu arferion da ar ymweliadau ac arolygiadau, drwy ddadansoddi'r sefyllfaoedd lle y mae plant mewn perygl o gael eu cam-drin mewn ffordd gyfanol a system-gyfan, a thrwy wneud argymhellion er mwyn gwella polisi ac ymarfer ar gyfer plant sy'n cael eu cadw.

Roedd cyfarfod cyntaf yr is-grŵp ar 18 Mawrth 2013 a bydd yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Cadeirydd yr is-grŵp yw Dirprwy Gomisiynydd Plant Lloegr ac mae'n adrodd i grŵp llywio'r NPM. Mae'r cylch gorchwyl – a drafodwyd yng nghyfarfod cyntaf yr is-grŵp a'i gymeradwyo wedyn gan y grŵp llywio – yn Atodiad 4.

20 Gweler y canllawiau yn. *Optional Protocol to the UN Convention against Torture: Implementation Manual,* Chapter V – Operational Functioning of NPMs. At: http://www.apt.ch/content/files_res/opcat-manual-english-revised2010.pdf
21 Gweler: http://www.justice.gov.uk/downloads/about/hmipris/npm-response-transforming-youth-custody.pdf

Yng nghyfarfod cyntaf yr is-grŵp, cafwyd trafodaeth ar ymateb ar y cyd i bapur ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed*[21], a oedd yn cynnig sefydlu colegau diogel ar gyfer plant sydd wedi'u dal yn y system cyfiawnder ieuenctid. Cyflwynwyd yr ymateb hwn yn 2013, ac roedd arbenigedd ac ystod profiad y rhai sydd yn yr is-grŵp ac aelodau eraill o'r NPM yn gaffaeliad mawr wrth ei lunio. Yn y dyfodol bydd yr is-grŵp yn cynnal trafodaethau thematig ar iechyd plant mewn lleoliadau diogel, arferion arwahanu ar gyfer plant mewn lleoedd cadw, pobl dan 18 oed yn nalfeydd yr heddlu a phlant mewn lleoedd cadw ar gyfer mewnfudwyr, ymysg pethau eraill.

**Cadw 'de facto'**

Roedd aelodau NPM y DU wedi nodi bod pryder ynghylch yr arfer o gadw de facto, lle y mae unigolion sydd heb eu cadw'n ffurfiol o dan y gyfraith yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae hyn yn achosi risgiau sylweddol i unigolion lle nad ydynt yn cael dilyn proses briodol ar gyfer adolygu'r penderfyniad i'w cadw. Nododd yr NPM fod pryder y bydd y rheini sy'n archwilio amodau lleoedd cadw yn methu ag ystyried unigolion sydd wedi'u cadw ar sail de facto. Mae'n bosibl hefyd y bydd parodrwydd ymysg gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a'r cyhoedd i ystyried bod cadw de facto o'r fath yn dderbyniol ar gyfer rhai unigolion, am na allant ddewis, yn peryglu eu hawliau dynol ymhellach.

Nododd aelodau NPM y DU y lleoliadau canlynol lle y mae unigolion mewn perygl o gael eu cadw ar sail de facto: gofal mewn ysbytai ar gyfer iechyd meddwl ac anabledd dysgu; gofal cyffredinol mewn ysbytai; cartrefi gofal; cartrefi plant ac ysgolion preswyl; a lleoliadau cymunedol, gan gynnwys tenantiaethau unigol ac ar y cyd.

Mae'r diffiniad o gadw de facto yn un cymhleth: mae'r effaith gronnol o nifer o ffactorau'n gallu amddifadu rhywun o'i ryddid, ond nid un ffactor ar ei ben ei hun . Y ffactorau hyn yw:

- a yw'r person wedi'i gaethiwo mewn lle cyfyng am gyfnod sydd heb fod yn ddibwys
- a yw'r person wedi rhoi cydsyniad dilys i gael ei gaethiwo
- a yw'r wladwriaeth yn gyfrifol (er enghraifft, mae cartrefi gofal annibynnol yn gallu torri Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol os byddant yn cadw unigolyn yn anghyfreithlon ar ôl ei leoli yno gan neu drwy ganiatâd awdurdod gwladwriaethol )
- a yw'r person yn rhydd i ymadael
- hyd y mesur
- ataliaeth gorfforol
- tawelyddu
- cysylltiad â'r byd y tu allan
- pwrpas cyffredinol y mesurau i reoli neu gyfyngu symudiadau'r unigolyn
- a oes cymharydd perthnasol.

Er mwyn ymateb i'r pryderon hyn, cyflwynwyd adroddiadau gan aelodau'r NPM ar gamau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i adnabod a herio cadw de facto. Yr heriau mwyaf a nodwyd – lle'r oedd yn ymddangos bod unigolion wedi'u hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdodiad cyfreithiol priodol, a sefyllfaoedd lle nad oedd y fframwaith cyfreithiol yn amddiffyn oedolion yn briodol – oedd y rhai mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau yn y gymuned, lle'r oedd unigolion yn derbyn gofal a thriniaeth oherwydd anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Y sefyllfaoedd lle'r oedd aelodau o'r NPM wedi nodi bod cadw de facto yn digwydd oedd:

- pobl sydd â dementia mewn gofal iechyd meddwl, ysbytai cyffredinol a chartrefi gofal – gellir atal unigolion rhag gadael y cyfleuster am resymau sy'n ymwneud â diogelwch, ond gallent gael eu rhwystro o ganlyniad rhag mynd i'r mannau yr oeddent am fynd iddynt a chael eu caethiwo i le caeedig
- pobl sydd â salwch meddwl neu anableddau dysgu lle nad ydynt wedi'u cadw'n ffurfiol ond yn cael eu cadw mewn cyfleusterau dan glo neu'n cael eu hystyried yn rhai y gellir eu cadw os byddant yn dymuno ymadael'
- pobl sydd ag unrhyw un o'r cyflyrau hyn sy'n derbyn gofal a thriniaeth mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys tenantiaethau unigol neu ar y cyd, gofal dydd neu ofal seibiant mewn lleoliadau cymunedol bach – gallent dderbyn gofal 24 awr sy'n rheoli eu symudiadau'n fanwl neu hyd yn oed cael eu cloi yn eu cartrefi neu eu hystafelloedd eu hunain am gyfnodau
- plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl mewn ysbyty – un agwedd i'w hystyried yw rhieni neu eraill sy'n arfer cyfrifoldebau rhiant sy'n cydsynio i fesurau cyfyngol neu driniaeth drwy rym ar gyfer plentyn.

Cofnodwyd cyfanswm o 19 o achosion ymddangosiadol o gadw de facto. Enwyd y lleoliadau a'r grwpiau cleientiaid canlynol.

| Lleoliadau lle y cofnodwyd cadw de facto | |
|---|---|
| Cartref gofal | 4 |
| Ysbyty | 12 |
| Uned diogelwch isel | 1 |
| Gwasanaeth cymorth i fyw | 1 |
| Cymorth i fyw i blant neu'r glasoed | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** |

| Grwpiau cleientiaid a gofnodwyd | |
|---|---|
| Niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol | 1 |
| Salwch meddwl | 7 |
| Dementia | 6 |
| Anabledd dysgu | 4 |
| Niwrolegol | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** |

Y mater mwyaf cyffredin oedd cadw de facto ymddangosiadol mewn ysbyty. Mae tri adroddiad yn cyfeirio at unigolion mewn lleoliadau cymunedol lle y mae ganddynt denantiaethau unigol neu ar y cyd.

| Materion a nodwyd (mwy nag un ym mhob achos) | |
|---|---|
| Cyfyngiadau ar gleifion mewn ysbytai sydd heb eu cadw | 12 |
| Ataliaeth ar gleifion mewn ysbytai sydd heb eu cadw | 2 |
| Cyfyngiadau ar breswylwyr mewn lleoliadau cymunedol anffurfiol | 3 |
| Ataliaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau sydd â dirprwy | 0 |
| Cyfyngiadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau sydd â dirprwy | 3 |
| Mater ymarferol (galluedd cyfnewidiol) | 1 |
| Mater ymarferol (defnyddio TDCRh* lle y byddai'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn fwy priodol) | 1 |
| **Cyfanswm** | **22** |

* TDCRh = Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (Cymru a Lloegr yn unig)

Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd yr aelod o'r NPM wedi dod â'r mater i sylw staff a rheolwyr. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd hyn wedi arwain at adroddiad ffurfiol i reolwyr y gwasanaeth.

| Camau a gymerwyd (un ar bob mater) | |
|---|---|
| Ei drafod â'r holl bartïon sy'n gysylltiedig | 5 |
| Adroddiad i reolwyr yr ysbyty/gwasanaeth | 9 |
| Ei drafod â'r holl bartïon ac adroddiad i'r rheolwyr | 3 |
| Ei drafod â staff/rheolwyr | 3 |
| Dim camau wedi'u nodi | 2 |
| **Cyfanswm** | **22** |

Categorïau cyffredinol yr argymhellion mewn trafodaethau neu adroddiadau ffurfiol oedd:

| Argymhellion (mwy nag un ym mhob achos) | |
|---|---|
| Rhaid i'r gwasanaeth ystyried ceisio awdurdodiad cyfreithiol priodol | 3 |
| Rhaid i'r gwasanaeth asesu/ailasesu galluedd y defnyddiwr gwasanaethau | 5 |
| Rhaid i'r gwasanaeth ystyried newid/gostwng lefel y cyfyngiad | 6 |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol | 7 |
| Rhaid i'r gwasanaeth ddatblygu polisi clir | 4 |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gwybod eu hawliau | 5 |
| Dim wedi'u cofnodi | 3 |
| **Cyfanswm** | **33** |

## Astudiaeth achos

Roedd menyw sydd â dementia wedi cael ei derbyn i ward feddygol mewn ysbyty cyffredinol gwledig yn glaf 'anffurfiol'. Oherwydd yr amgylchiadau wrth ei derbyn, roedd wedi'i thawelyddu'n drwm pan gyrhaeddodd.

Am gyfnod o 52 awr ar ôl ei derbyn, roedd yn ymdrechu i adael a chafodd ei hatal rhag gwneud hynny drwy ddefnyddio ataliaeth a'i thawelyddu'n drwm. Cafodd ei throsglwyddo i ward seiciatryddol.

Ymgynghorwyd â'i thwrnai lles ynghylch ei harhosiad yn yr ysbyty. Roedd y meddyg a oedd yn ei thrin wedi cymryd bod hyn yn rhoi awdurdod cyfreithiol ac nid oedd wedi ystyried ei chadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid oedd wedi cael caniatâd gan y twrnai i'w thawelyddu.

I bob pwrpas, roedd y fenyw hon yn cael ei chadw ar sail de facto yn groes i'w hewyllys. Prin oedd dealltwriaeth y staff o'r ddeddfwriaeth berthnasol ac ychydig o gymorth a gawsant i ddarparu gofal i unigolion dryslyd. Cafwyd argymhellion gan yr aelod o'r NPM am well hyfforddiant a chymorth i staff ac am gymryd camau gan Lywodraeth i sicrhau gofal gwell ar gyfer dementia mewn ysbytai anghysbell.

Drwy'r adolygiad hwn o gamau gweithredu gan aelodau, roeddem yn gallu nodi'r ymatebion yr oedd aelodau'r NPM yn eu darparu ar y pryd ar ôl nodi achosion o gadw de facto. O'r 33 o argymhellion, roedd 13 yn ymwneud â pholisi a hyfforddiant. Roedd lle amlwg hefyd i argymhellion ynghylch asesu

galluedd a sicrhau bod unigolion yn gwybod eu hawliau.

Mae'n werth nodi bod yr aelodau, wrth wneud argymhellion ynghylch graddau'r cyfyngu ar ryddid, yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar yr angen am gyfyngiad yn hytrach na'i gyfreithlondeb. Mae hyn yn adlewyrchu egwyddor y cyfyngiad lleiaf ar ryddid sy'n rhedeg drwy'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth ddiweddar yn y DU ar iechyd ac analluedd meddyliol.

Mae'r dystiolaeth a gafwyd o'r adolygiad hwn wedi helpu'r NPM i adnabod y mathau o arferion sy'n arwain at gadw de facto, yn ogystal â'r camau a gymerir ar ôl pennu achosion ohono. O ganlyniad i hyn, mae'r NPM wedi penderfynu dal y mater dan sylw a bydd yn rhoi diweddariad ar y gwaith hwn yn ei adroddiad blynyddol nesaf.

## Cydweithio rhyngwladol

Cafwyd nifer o geisiadau gan gymheiriaid mewn gwledydd tramor sy'n ymddiddori yn NPM aml-sefydliadol y DU yn ogystal â swyddogaethau ei aelodau. Mae trefniadaeth ganolog yr NPM wedi bod o gymorth i ymateb i'r ceisiadau hyn, os oedd modd, a hefyd i drosglwyddo'r ceisiadau i aelodau priodol o'r NPM. Yn yr un modd, mae croesawu dirprwyaethau o wledydd tramor i'r DU a chymryd rhan mewn ymweliadau tramor wedi helpu aelodau o'r NPM i ddatblygu eu harbenigedd a'u dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Protocol Dewisol sydd y tu allan i'w cylch gwaith presennol.

Yn Ebrill 2012, cymerodd MWCS ran mewn trafodaeth bord gron â dirprwyaeth o lywodraeth Norwy, gan gynghori ynghylch y defnydd o ymgynghori ar iechyd meddwl drwy gyswllt fideo o bell, yn enwedig mewn cysylltiad â phenderfyniadau ar driniaeth anwirfoddol.

Rhwng Hydref a Rhagfyr 2012, croesawodd HMIP ddirprwyaeth o swyddogion heddlu o Ethiopia, cyfreithwyr hawliau dynol o Japan, a chynrychiolwyr o Bwyllgor Arolygu Sefydliadau Cywirol Talaith Ohio, UDA a Llysgenhadaeth Chile. Os oedd modd, roedd HMIP wedi hwyluso cyfleoedd i gysgodi arolygiadau ar gyfer yr ymwelwyr hyn o wledydd tramor.

Yn Ionawr 2013, dechreuodd HMIP ar waith gydag Ombwdsmon Bahrain, Sefydliad Cenedlaethol Hawliau Dynol a chyrff anllywodraethol yn Bahrain, a oedd yn rhan o brosiect i helpu i ddatblygu NPM yn Bahrain. Trefnwyd nifer o ymweliadau i ymarfer arolygu mewn cyfleusterau cadw yn Bahrain, ac ymweliadau hyfforddi a oedd yn galluogi aelodau o staff yr Ombwdsmon a'r Sefydliad Cenedlaethol Hawliau Dynol i gymryd rhan yn arolygiadau HMIP yn y DU. Gyda chymorth Swyddfa Dramor a Chymanwlad y DU, mae HMIP wedi gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth ac wedi hyrwyddo ymgynghori ag Is-bwyllgor Atal Arteithio'r Cenhedloedd Unedig a'r Gymdeithas er Atal Arteithio i hybu cydymffurfiaeth â safonau rhyngwladol.

### Ymweliad y Pwyllgor Atal Arteithio

Ym mis Medi 2012, cafwyd y seithfed ymweliad cyfnodol â'r DU gan y Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol.

22 Mae adroddiadau'r Pwyllgor Atal Arteithio ac ymatebion y DU ar gael yn: http://www.cpt.coe.int/en/states/gbr.htm


Mae'r Pwyllgor Atal Arteithio yn fecanwaith ataliol anfarnwrol a sefydlwyd o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol. Mae'n gorff sy'n cynnwys arbenigwyr annibynnol a diduedd sy'n gwasanaethu fel unigolion. Bydd y Pwyllgor Atal Arteithio yn trefnu ymweliadau â lleoedd cadw, er mwyn asesu'r ffordd y mae pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn cael eu trin. Mae dirprwyaethau'r Pwyllgor Atal Arteithio yn cael mynd i mewn i bob sefydliad cadw, ac mae ganddynt hawl i fynd i bob rhan o'r sefydliadau hynny. Byddant yn cyf-weld â phobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn breifat, ac yn cyfathrebu'n ddirwystr â phawb sy'n gallu darparu gwybodaeth.

Treuliwyd y rhan fwyaf o'r ymweliad yn archwilio cyfleusterau cadw yn yr Alban, gan edrych yn benodol ar amodau cadw carcharorion sy'n fenywod, troseddwyr ifanc sy'n fenywod, oedolion gwrywaidd sydd wedi'u remandio a phobl sydd wedi'u harwahanu. Ymwelodd hefyd â chyfleuster seiciatryddol diogelwch canolig ac ymchwiliodd i'r ffordd y mae pobl a gadwyd gan yr heddlu'n cael eu trin.

Rhoddwyd gwybod gan y Pwyllgor Atal Arteithio ei fod wedi cael cydweithrediad rhagorol drwy gydol ei ymweliad. Roedd aelodau o'r NPM, gan gynnwys HMIPS, wedi cynorthwyo a hwyluso yn ystod yr ymweliad.

Ar ôl pob ymweliad, bydd y Pwyllgor Atal Arteithio yn anfon adroddiad drafft i'r Wladwriaeth dan sylw ac yn gofyn am ymateb manwl i'r materion a godwyd. Cwblheir yr adroddiad wedyn ar ôl i'r Wladwriaeth gael cyfle i ymateb. Gellir cyhoeddi adroddiadau os bydd y Wladwriaeth dan sylw yn cytuno. Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto[22].

# Adran tri
# Edrych ymlaen i'r bumed flwyddyn



Yn 2012–13, mae aelodau'r NPM wedi parhau i fonitro triniaeth ac amodau'r rhai mewn lleoedd cadw, ac wedi cyfrannu'n gyffredinol at weithredu OPCAT yn effeithiol yn y DU. Byddant yn parhau i fonitro'r gweithredu ar eu hargymhellion, er mwyn atal cam-drin mewn lleoedd cadw o bob math.

Rhai o'r cynlluniau ar gyfer pumed flwyddyn yr NPM yw:

- penodi cydgysylltydd newydd ar gyfer yr NPM
- trefnu digwyddiad yn Ebrill 2014 i nodi pumlwyddiant dynodi'r NPM yn y DU, ar y cyd â Chanolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste
- parhau i fonitro ym maes cadw de facto er mwyn llunio argymhellion ar gyfer cyrff monitro/arolygu
- datblygu rôl yr is-grŵp plant a phobl ifanc. Bwriedir cynnal rhagor o gyfarfodydd a fydd yn rhoi sylw i iechyd, arwahanu plant/arwahanu plant ar eu pen eu hunain mewn lleoedd cadw, a chadw plant gan yr heddlu a gwasanaethau mewnfudo. Bydd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar allbynnau er mwyn hwyluso gweithredu cydgysylltiedig gan yr NPM ar faterion sy'n peri pryder ynghylch plant mewn lleoedd cadw
- trafod y sylw y mae'r NPM yn ei roi i farwolaethau yn y ddalfa ac arwahanu/carcharu pobl ar eu pen eu hunain ac ynysu
- datblygu a gweithredu protocol i sicrhau bod carcharorion/rhai mewn lleoedd cadw yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw sancsiynau sy'n ganlyniad i gyfathrebu rhyngddynt a HMIP, BMAau neu Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf (nid yw'r olaf yn aelod o'r NPM) gyda'r bwriad o'i ledaenu i aelodau eraill o'r NPM
- adolygu aelodaeth grŵp llywio'r NPM, yn unol â chylch gorchwyl y grŵp llywio
- cryfhau'r deialog ag Is-bwyllgor Atal Arteithio y Cenhedloedd Unedig, er mwyn cael arweiniad cadarnhaol gan yr Is-bwyllgor ar feysydd y gall yr NPM ganolbwyntio arnynt a'u datblygu
- adolygu dulliau gweithio NPM y DU a'i gydymffurfiaeth ag OPCAT a chanllawiau a roddwyd wedyn gan yr Is-bwyllgor Atal Arteithio.

# Adran pedwar
# Atodiadau



# Atodiad Un

## Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig–31 Mawrth 2009[23]

## Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT)

**Y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder (Mr Michael Wills):**
Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT), a gadarnhawyd gan y DU yn Rhagfyr 2003, yn ei gwneud yn ofynnol bod parti-wladwriaethau yn sefydlu mecanwaith ataliol cenedlaethol i weithredu system o ymweliadau rheolaidd â lleoedd cadw er mwyn atal arteithio a thriniaeth arall sy'n greulon, yn annynol neu'n ddiraddiol.

Mae OPCAT yn darparu y caiff mecanwaith ataliol cenedlaethol fod yn un corff neu'n nifer o gyrff. Bwriad y llywodraeth yw y bydd gofynion OPCAT yn cael eu cyflawni yn y DU drwy gydweithredu gan gyrff arolygu presennol.

Rwyf yn dynodi'r cyrff canlynol i ffurfio NPM y DU. Os bydd angen ychwanegu cyrff arolygu newydd i'r NPM yn y dyfodol, neu os bydd cyrff o fewn yr NPM yn cael eu hailstrwythuro neu eu hailenwi, byddaf yn hysbysu'r Senedd am hynny.

**Cymru a Lloegr**
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)
- Byrddau Monitro Annibynnol (BMAau)
- Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
- Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted)

**Yr Alban**
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Y Comisiwn Gofal (CC)

**Gogledd Iwerddon**
- Byrddau Monitro Annibynnol (BMAau)
- Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
- Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA)
- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

**23** HC Col 56WS, 31 Mawrth 2009.

# Atodiad Dau

## Trosolwg ar aelodau

Yn adroddiad blynyddol cyntaf NPM y DU, roedd disgrifiad o bob un o aelodau'r NPM a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl am eu mandad, eu strwythur a'u methodoleg. Yn hytrach nag ailadrodd y wybodaeth honno mewn adroddiadau blynyddol wedyn, rydym wedi cynnwys disgrifiad byr o bob un o'r aelodau isod, i'ch atgoffa. Rydym hefyd wedi cynnwys manylion unrhyw newidiadau pwysig a gafwyd yn ystod 2012–13. Ceir gwybodaeth fanwl am bob aelod yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf, yn y gronfa ddata ar-lein o aelodau NPM y DU, ac yn adroddiadau blynyddol ac ar wefannau'r gwahanol aelodau.[24]

Yn yr un modd ag adroddiadau blynyddol blaenorol, mae 19 o sefydliadau wedi'u cynnwys isod, er mai dim ond 18 sydd wedi'u dynodi'n aelodau o'r NPM. Nid yw'r 19edd sefydliad – Independent Custody Visitors Scotland – wedi'i ddynodi ar wahân ond mae'n aelod o'r ICVA, sydd wedi'i ddynodi.

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**
Mae AGGCC yn rheoleiddio ac yn arolygu'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys llety diogel, lle y mae plant yn cael eu lleoli un ai oherwydd eu hymddygiad troseddol neu am eu bod yn risg sylweddol iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill. Bydd AGGCC hefyd yn monitro'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn ystod ei harolygiadau rheolaidd o gartrefi gofal oedolion.
www.cssiw.org.uk
http://cssiw.org.uk/docs/cssiw report/130110annualen.pdf

**Y Comisiwn Ansawdd Gofal**
Mae'r CQC yn sefydliad statudol annibynnol sy'n gyfrifol am fonitro, arolygu a rheoleiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau sylfaenol o ran ansawdd a diogelwch. Bydd y CQC hefyd yn monitro gweithrediad Deddf Iechyd Meddwl 1983, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cadw o dan gyfraith iechyd meddwl. Bydd y CQC yn arolygu gofal iechyd mewn carchardai a chanolfannau cadw mewnfudwyr ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) ac yn cymryd rhan mewn arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu ochr yn ochr â HMIP ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.
www.cqc.org.uk
http://www.cqc.org.uk/sites/default files/media/documents/annual report_2012_2013.pdf

**Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon**
Mae CJINI yn gorff statudol sy'n gyfrifol am arolygu pob agwedd ar y system cyfiawnder troseddol. Mae mandad eang gan CJINI a chaiff arolygu lleoedd cadw o lawer math, gan gynnwys carchardai, canolfannau cyfiawnder ieuenctid, dalfeydd yr heddlu a dalfeydd y llysoedd.
www.cjini.org
http://www.cjini.org/CJNI/files/c8/c806f120 211a-4990-8a41-416ce13eaeda.pdf

24 Mae'r gronfa ddata ar-lein o aelodau NPM y DU, a gasglwyd gan y Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste ar y cyd â'r aelodau eu hunain, ar gael yn: http://www.bristol.ac.uk/law/research/centres-themes/hric/hricnpmukdatabase/index.html.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Mae AGIC yn arolygu pob math o ofal iechyd yng Nghymru. Un agwedd ar y rôl hon yw monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd meddwl a sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn cadw at y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Wrth wneud hyn, bydd AGIC yn cydweithio'n agos ag AGGCC (gweler uchod), sy'n monitro'r defnydd o drefniadau diogelu rhag colli rhyddid mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae AGIC hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o dan arweiniad HMIP mewn carchardai yng Nghymru, gan asesu'r gofal iechyd ar gyfer carcharorion a sicrhau ei fod yn cyfateb i'r hyn sydd yn y gymuned.
www.hiw.org.uk

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi**
Mae HMIC o dan ddyletswydd statudol i arolygu ac adrodd ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona. Ar ôl cadarnhau OPCAT, mae rôl HMIC yn cynnwys cyflawni arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr mewn partneriaeth â HMIP. Roedd y rhaglen arolygu newydd ar gyfer dalfeydd tollau Llu'r Ffiniau wedi dechrau yn Rhagfyr 2012.
www.hmic.gov.uk
http://www.hmic.gov.uk/media/annual report-2011-12.pdf

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban**
Yn 2012–13, rôl HMICS oedd monitro a gwella gwasanaethau heddlu yn yr Alban. Roedd HMICS wedi arolygu gwahanol agweddau ar blismona ac wedi cyhoeddi adroddiad yn Ionawr 2013 ar ofal a lles pobl a oedd wedi'u cadw yn nalfeydd yr heddlu. Ers cyfuno wyth heddlu'r Alban yn un gwasanaeth cenedlaethol ar 1 Ebrill 2013, rôl HMICS o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân (Yr Alban) 2012 yw monitro cyflwr, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gwasanaeth Heddlu'r Alban ac Awdurdod Heddlu'r Alban. Bydd HMICS yn parhau i fonitro'r ffordd y mae pobl mewn lleoedd cadw yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, a threfnwyd i gynnal arolygiad o ddalfeydd y gwasanaeth cenedlaethol newydd ar ddechrau 2014.
http://www.hmics.org/
http://www.hmics.org/publications/hmics annual-report-2012-13

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**
Mae HMIP yn sefydliad statudol annibynnol sy'n cynnal arolygiadau rheolaidd o leoedd cadw er mwyn asesu'r ffordd o drin y rhai sydd wedi'u cadw a'r amodau ar eu cyfer. Bydd HMIP yn arolygu'r holl garchardai yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc, yr holl ganolfannau cadw mewnfudwyr, dalfeydd tymor byr a threfniadau hebrwng ar gyfer rhai sydd wedi'u cadw gan wasanaethau mewnfudo, a holl ddalfeydd yr heddlu ar y cyd â HMIC. Drwy wahoddiad, mae HMIP hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o garchardai yng Ngogledd Iwerddon (mewn partneriaeth â CJINI) ac yn arolygu rhai cyfleusterau cadw milwrol. Yn 2012, rhoddwyd pwerau i HMIP i arolygu dalfeydd y llysoedd a dechreuodd arolygu canolfannau hyfforddi diogel hefyd ar y cyd ag Ofsted, a dalfeydd y tollau ar y cyd â HMIC.

www.justice.gov.uk/about/hmi-prisons/index.htm
http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/hmi-prisons/hm-inspectorate-prisons-annual-report-2012-13.pdf

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban**
Mae HMIPS yn arolygu carchardai, gan gynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc, gan roi sylw'n benodol i'r ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Bydd hefyd yn arolygu trefniadau ar gyfer hebrwng carcharorion – gan gynnwys amodau'r cludiant ar gyfer carcharorion – yn ogystal â dalfeydd y llysoedd a mannau eraill lle y mae carcharorion yn cael eu dal dros dro y tu allan i'r carchar.
http://www.scotland.gov.uk/Topics/Justice/public-safety/offender-management/offender/custody/Prisons/hmip
http://www.scotland.gov.uk/Publications/2013/06/4575/0

**Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd**
Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn wirfoddolwyr o'r gymuned sy'n ymweld â'r holl orsafoedd heddlu lle y mae pobl yn cael eu dal i holi am eu lles. Mae'r ymweliadau â dalfeydd yn rhai statudol ac mae pŵer gan ymwelwyr i fynd i mewn i orsafoedd heddlu, archwilio cofnodion sy'n ymwneud â lleoedd cadw, cwrdd â rhai sy'n cael eu cadw i drafod eu triniaeth a'u hamodau, ac archwilio cyfleusterau, gan gynnwys celloedd, toiledau a chyfleusterau ymolchi, a chyfleusterau ar gyfer darparu bwyd. Un o brif rolau ICVA yw edrych ar sylfaen sgiliau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd i sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gallu ymweld â'r rhan fwyaf o'r bobl mewn dalfeydd gan wneud hynny mewn ffordd mor effeithiol â phosibl. Er mwyn hwyluso hyn, mae wedi datblygu dau fodiwl hyfforddi'n ddiweddar sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc ac iechyd meddwl. Bwriad y modiwlau hyn yw creu mwy o hyder, empathi a pharch o'r ddwy ochr yn ystod ymweliadau a hwyluso gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n codi yng nghyswllt dau gategori o bobl yn nalfeydd yr heddlu a all fod yn agored i niwed.
www.icva.org.uk
http://icva.org.uk/uploads/publications/ICVA_Annual_Report_12-13.pdf

Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (Yr Alban)
Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd â gorsafoedd heddlu er mwyn monitro triniaeth ac amodau'r rhai sydd mewn lleoedd cadw. Nid yw Independent Custody Visitors Scotland wedi'i ddynodi'n aelod ar wahân o NPM y DU hyd yn hyn ond mae'n aelod o ICVA, er ei fod yn cadw ei fframwaith ariannu a rheoli ei hun. O ganlyniad i basio Deddf Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân (Yr Alban) 2012, mae ymweliadau â dalfeydd yn yr Alban yn gynllun statudol bellach.

**Byrddau Monitro Annibynnol**
Mae BMAau o dan ddyletswydd statudol i'w sicrhau eu hunain bod cyflwr y carchardai a chyfleusterau cadw mewnfudwyr y maent yn ymweld â nhw yn foddhaol, yn ogystal â'r dull o'u gweinyddu a thriniaeth carcharorion a rhai sydd mewn lleoedd cadw. Mae'r Byrddau yn cynnwys aelodau o'r gymuned sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-dâl drwy ymweld â sefydliadau'n aml ac yn rheolaidd. Mae Bwrdd ar gyfer pob carchar yng Nghymru a Lloegr ac ar gyfer pob canolfan cadw mewnfudwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a hefyd ar gyfer rhai dalfeydd tymor byr i gadw mewnfudwyr. Maent hefyd wedi monitro teithiau rhai awyrennau siarter yn y flwyddyn a aeth heibio.

Penodir aelodau'r Byrddau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
www.justice.gov.uk/about/imb.htm
http://www.justice.gov.uk/downloads/about/imb/behind-closed-doors-2012.pdf

**Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)**
Mae'r BMAau yng Ngogledd Iwerddon yn gyrff statudol sy'n monitro'r ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin ac amodau eu carcharu. Mae'r Byrddau yn cynnwys aelodau o'r gymuned sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-dâl drwy ymweld â sefydliadau'n rheolaidd. Mae tri Bwrdd yng Ngogledd Iwerddon, un ar gyfer pob carchar. Penodir aelodau'r Byrddau gan Weinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon.
www.imb-ni.org.uk
http://www.imb-ni.org.uk/publications.htm

**Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban**
Mae MWCS yn sefydliad statudol annibynnol sy'n ymdrechu i ddiogelu hawliau a lles pawb sydd â salwch meddwl. Mae mandad eang gan MWCS ac un o'i weithgareddau yw monitro gofal a thriniaeth y bobl sy'n cael eu cadw o dan gyfraith iechyd meddwl.
www.mwcscot.org.uk
http://www.mwcscot.org.uk/media/138481/annual_report_-_easy_read_2012-13.pdf

**Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon**
Yn yr un modd â gweddill y DU, ceir ymweliadau dirybudd rheolaidd â dalfeydd yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon gan ymwelwyr â dalfeydd. Mae ymwelwyr â dalfeydd yn wirfoddolwyr o'r gymuned leol sy'n monitro hawliau, iechyd a lles, ac amodau cadw'r rheini sydd yn nalfeydd yr heddlu.
www.nipolicingboard.org.uk/index/publications/custody-visitors.htm
http://www.nipolicingboard.org.uk/northern_ireland_independent_custody_visiting_scheme_final_pdf.pdf

**Swyddfa Safonau mewn Addysg**
Mae Ofsted yn gorff arolygu a rheoleiddio sy'n ceisio hyrwyddo rhagoriaeth yng ngofal plant a phobl ifanc, ac yn addysg a sgiliau dysgwyr o bob oed. Yng nghyd-destun lleoedd cadw, bydd Ofsted yn arolygu'r ddarpariaeth o ofal ac addysg ar gyfer plant mewn llety diogel, ac yn asesu'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau cadw mewnfudwyr drwy gymryd rhan mewn arolygiadau o dan arweiniad HMIP.
www.ofsted.gov.uk
http://www.ofsted.gov.uk/filedownloading/?file=documents/annual-reports/s/Social%20Care%20Annual%20Report%20201213.pdf&refer=0

**Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr**
Rôl y Comisiynydd Plant yw hyrwyddo ymwybyddiaeth o farn a diddordebau plant yn Lloegr, hyrwyddo a diogelu eu hawliau, gan ganolbwyntio ar y rheini y mae eu llais yn lleiaf tebygol o gael ei glywed. Mae pŵer gan y Comisiynydd i fynd i mewn i unrhyw fangre heblaw annedd breifat er mwyn cyf-weld ag unrhyw blentyn sy'n lletya neu'n derbyn gofal yno, os bydd y plentyn yn cydsynio. Er nad yw'r Comisiynydd yn cynnal rhaglen o ymweliadau neu arolygiadau rheolaidd, mae ganddo bŵer eang i fynd i mewn i fangreoedd lle y gall plant fod wedi'u cadw.
www.childrenscommissioner.gov.uk
http://www.childrenscommissioner.gov.uk/content/publications/content_702

**Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd**
Mae gan yr RQIA bwerau i fonitro argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon a hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau hyn. Un agwedd allweddol ar ei rôl yw arolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoedd cadw, gan gynnwys carchardai, llety diogel i blant a lleoedd ar gyfer cadw pobl o dan gyfraith iechyd meddwl. Hefyd gofynnwyd i'r RQIA fonitro'r gweithredu ar yr argymhellion ynghylch iechyd yn Adroddiad Tîm Adolygu Carchardai Gogledd Iwerddon 2011[25].
www.rqia.org.uk
http://www.rqia.org.uk/cms_resources/RQIA%20Annual%20Report%20and%20Accounts%202010-11.pdf

**Yr Arolygiaeth Gofal**
Sefydlwyd y CI o dan Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010. Mae'n gorff annibynnol ar gyfer gwella a chraffu ar waith cymdeithasol a gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol ar gyfer pobl o bob oed. Sefydlwyd yr Arolygiaeth yn Ebrill 2011 drwy gyfuno tri chorff craffu blaenorol: Comisiwn yr Alban ar gyfer Rheoleiddio Gofal (y Comisiwn Gofal) ar gyfer gwasanaethau gofal, Asiantaeth Arolygu Gwaith Cymdeithasol (SWIA) a oedd yn cynnal arolygiadau strategol o wasanaethau gwaith cymdeithasol yn y gymuned, ac un o gyfarwyddiaethau Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi (HMIE) a oedd yn cynnal arolygiadau ar y cyd o wasanaethau i amddiffyn plant. Un rhan o gylch gwaith newydd y CI yw rheoleiddio cartrefi diogel ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â gwasanaethau preswyl eraill.

Nid yw'r CI wedi'i dynodi'n ffurfiol yn aelod o NPM y DU eto ond mae'n olynydd i aelod a oedd wedi'i ddynodi o'r blaen, y Comisiwn Gofal.

www.careinspectorate.com
http://www.careinspectorate.com/index.php?option=com_docman&task=doc_download&gid=1041&Itemid=100175

**Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban**
Mae SHRC yn gorff statudol annibynnol sydd â phŵer i fynd i mewn i leoedd cadw ac adrodd ar hawliau pobl sy'n cael eu cadw. Dyletswydd gyffredinol y Comisiwn yw hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a pharch at hawliau dynol ac, yn benodol, hyrwyddo'r arferion gorau mewn cysylltiad â nhw.
www.scottishhumanrights.com
http://scottishhumanrights.com/application/resources/documents/SHRCAnnualReport2011_12Final.pdf#search="annual%20report"

# Atodiad Tri

## Cylch gorchwyl grŵp llywio'r NPM

**Cefndir**
Mewn cyfarfod o aelodau'r NPM yng Nghaeredin ar 9 Mai 2011, cyflwynwyd cynnig ynghylch strwythur gweithredu'r NPM. Awgrymwyd y dylai'r aelodau ystyried sefydlu pwyllgor gwaith neu grŵp llywio ar gyfer yr NPM i hwyluso penderfyniadau a chyflawni gwaith ar y cyd. Mynegwyd cryn ddiddordeb yn y cynnig bryd hynny a chytunwyd y byddai HMIP yn paratoi cynnig manylach i'w ystyried gan aelodau.

**Cynnig**
Sefydlu grŵp llywio ar gyfer NPM y DU.

**Pwrpas**
Ar hyn o bryd, mae'r NPM yn cynnwys 18 o gyrff ac mae HMIP yn cydgysylltu ei waith. Hyd yn hyn, rydym wedi gweithredu ar sail consensws ond mae'n anochel, gan fod yr aelodaeth mor fawr ac amrywiol, ei bod weithiau'n anodd ac yn cymryd cryn amser i sicrhau cytundeb rhwng yr aelodau a symud ymlaen yn gyflym ar faterion, os gellir gwneud hynny o gwbl. Bydd yr heriau hyn yn debygol o gynyddu gan fod y llywodraeth yn ystyried ehangu aelodaeth yr NPM (o 18 i 21 o bosibl). O safbwynt y cydgysylltydd, mae angen mecanwaith i symud ymlaen ar weithgareddau ar y cyd yn y cyfnodau rhwng cyfarfodydd o'r NPM cyfan neu i wneud penderfyniadau'n gyflym, heb orfod ymgynghori â phob un o'r 18 aelod. Os ydym am wneud mwy o waith ar y cyd o dan faner yr NPM – ac mae nifer o aelodau wedi mynegi awydd i wneud hynny – yna bydd mecanwaith fel grŵp llywio yn gallu hwyluso hyn. Yn ogystal â hynny, mae lefel yr ymgysylltu â'r NPM yn amrywio rhwng aelodau: y gobaith yw y bydd y grŵp llywio yn fodd i hyrwyddo ymgysylltu gan yr holl aelodau.

Y rôl sydd wedi'i hawgrymu ar gyfer y grŵp llywio yw:

- hwyluso penderfyniadau sy'n ymwneud â'r NPM
- pennu cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgarwch cydgysylltiedig/ar y cyd gan yr NPM
- helpu i gynllunio gweithgareddau ar y cyd ar gyfer y dyfodol
- cynghori a helpu HMIP a chydgysylltydd yr NPM i gyflawni eu rolau
- monitro ac asesu gwerth gweithgareddau ar y cyd
- hyrwyddo ymgysylltu gan yr holl aelodau mewn gweithgarwch ar y cyd gan yr NPM
- gweithredu ar ran yr NPM
- cynrychioli holl aelodau'r NPM hyd eithaf ei allu, gan ystyried gwahanol rolau'r aelodau a chyd-destunau eu gwaith.

Wrth sefydlu grŵp llywio, ni fydd bwriad i leihau'r mewnbwn gan 18 aelod unigol yr NPM. Bydd HMIP, y cydgysylltydd a/neu'r grŵp llywio yn parhau i ofyn am fewnbwn gan yr holl aelodau ynghylch materion sy'n neilltuol o bwysig neu rai a allai fod yn ddadleuol. Bydd y grŵp llywio yn ceisio cynrychioli buddiannau'r NPM cyfan ond ni fydd ei benderfyniadau'n rhwymo aelodau unigol.

Bydd cyfle i ddatblygu rôl a strwythur y grŵp llywio yn y dyfodol yn ôl ein profiad.

## Aelodaeth

Er mwyn bod yn effeithiol, dylai'r grŵp llywio fod yn fach ond dylem sicrhau hefyd fod y grŵp yn cynrychioli'r NPM cyfan i'r graddau mwyaf posibl. Wrth ddewis aelodau'r grŵp llywio, dylid ystyried y gwahanol fathau o leoedd cadw yr ymwelir â nhw a'r gwahanol awdurdodaethau lle y mae'r aelodau'n gweithredu yn ogystal â natur y cyrff eu hunain (e.e. cyrff lleyg a phroffesiynol). Ni fydd yn bosibl i aelodau'r grŵp llywio gynrychioli'r holl leoedd cadw yr ymwelir â nhw, ond ceisir sicrhau amrywiaeth. Gan mai HMIP sy'n cydgysylltu'r NPM, bydd yn rhaid i Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi fod yn aelod sefydlog o'r grŵp llywio. Dylid ystyried hefyd ai HMIP neu aelod arall a ddylai gadeirio'r grŵp.

Cynigir y bydd cais yn cael ei wneud am wirfoddolwyr i wasanaethu ar y grŵp llywio ac y bydd pedwar person yn cael eu dewis gan gydgysylltydd yr NPM gan sicrhau rhaniad teg rhwng y mathau o leoedd cadw yr ymwelir â nhw a chyrff lleyg/proffesiynol. Bydd un aelod yr un dros Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dim ond dau dymor o ddwy flynedd a ganiateir i aelodau'r grŵp llywio a dylai'r tymhorau hynny fod am yn ail.

Os bydd cynrychiolydd corff lleyg yn aelod o'r grŵp llywio, gall HMIP ysgwyddo treuliau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r aelodaeth honno (costau teithio'n unig yn ôl pob tebyg). Bydd disgwyl i holl aelodau eraill y grŵp llywio ysgwyddo eu costau eu hunain.

## Dulliau gweithio

Rhagwelir y bydd aelodau'r grŵp llywio mewn cysylltiad yn rheolaidd â chydgysylltydd yr NPM ac y bydd cymaint o waith â phosibl yn cael ei wneud drwy'r e-bost a thros y ffôn. Cynhelir cyfarfodydd o'r grŵp llywio ddwywaith y flwyddyn. Bydd gwaith y grŵp yn dryloyw a rhaid iddo adrodd yn ôl i holl aelodau'r NPM ar ei drafodaethau a'i benderfyniadau. Cyflawnir swyddogaeth ysgrifenyddol y grŵp llywio gan gydgysylltydd yr NPM.

# Atodiad Pedwar

## Cylch gorchwyl is-grŵp plant a phobl ifanc yr NPM

### 1. Cyflwyniad

Ers ei sefydlu yn 2009, mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y DU wedi monitro llywodraeth y DU i weld a yw'n cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan Gytuniad y Cenhedloedd Unedig ynghylch trin pobl sy'n cael eu cadw mewn unrhyw fath o ddalfa.

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn rhan o waith yr NPM ochr yn ochr â thriniaeth oedolion ac mae cyfarfodydd busnes rheolaidd yr NPM wedi cynnwys trafodaethau sy'n canolbwyntio ar blant. Er hynny, prin yw'r cyfle mewn cyfarfodydd busnes i gael trafodaethau arbenigol rheolaidd.

O ganlyniad i hyn, cytunodd aelodau'r NPM yn 2013 i sefydlu is-grŵp arbenigol i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Byddai'r grŵp hwn yn cynnig cyfle i'r rheini sydd ag arbenigedd a phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc i gynorthwyo'r NPM cyfan drwy gynnig cyngor, gwybodaeth ac argymhellion arbenigol.

### 2. Cefndir

Mae plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn lleiafrif bach o'r bobl sydd mewn lleoedd cadw yn y DU. Maent yn agored i niwed oherwydd eu hoed a'u galluedd, a hefyd am eu bod yn cael eu cadw. Bydd llawer ohonynt hefyd wedi wynebu profiadau anodd yn eu bywyd cyn cael eu cadw.

Mae hawliau a mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer plant mewn lleoedd cadw sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mewn offerynnau rhyngwladol eraill, yn ogystal â chyfraith ddomestig.

Children are detained in a variety of settings across the different jurisdictions of the UK. This can make it hard for NPM members to identify common challenges, share good practice and make recommendations.

Drwy ganolbwyntio ar anghenion penodol plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw, bydd yr is-grŵp hwn yn helpu'r NPM i gyflawni ei rôl atalio[25] drwy rannu arferion da ar ymweliadau ac arolygiadau, drwy ddadansoddi sefyllfaoedd lle y mae plant mewn perygl o gael eu cam-drin mewn ffordd gyfannol sy'n cynnwys y system gyfan, a thrwy wneud argymhellion er mwyn gwella polisi ac ymarfer ar gyfer plant sy'n cael eu cadw.

### 3. Cadeirio, adrodd ac aelodaeth

Bydd is-grŵp yr NPM yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gomisiynydd Plant Lloegr ac yn cael cymorth gan yr OCC.

Bydd yn adrodd i grŵp llywio'r NPM, ac yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyd-drefnu â chyfarfodydd y grŵp llywio.

25 Gweler y canllawiau yn: *Association for the Prevention of Torture, Optional Protocol to the UN Convention against Torture: Implementation Manual,* Chapter V - Operational Functioning of NPMs. Yn: http://www.apt.ch/content/files_res/opcat-manual-english-revised2010.pdf

Bydd yr is-grŵp yn agored i aelodau'r NPM sy'n ymddiddori yn hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw, mewn amrywiaeth o leoliadau.

## 4. Amcanion

Amcan yr is-grŵp fydd hyrwyddo effeithiolrwydd cyffredinol y gwaith gan yr NPM ar hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw.

Bydd y grŵp yn gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- rhannu arferion, profiad a gwybodaeth rhwng aelodau'r NPM ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y ddalfa
- adnabod materion a phryderon allweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a rhoi gwybod amdanynt yng nghyfarfodydd busnes yr NPM drwy'r grŵp llywio
- gwneud argymhellion ar ran yr NPM i lywodraeth a rhanddeiliaid ynghylch ffyrdd o ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw
- cyfrannu at adroddiad blynyddol yr NPM a darparu trosolwg a sylwadau ar adrannau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

## 5. Tymhorau a gweithdrefnau adolygu

Bydd yr is-grŵp yn cynnig rhestr flynyddol o bynciau i'w trafod ganddo. Anfonir y rhestr hon i grŵp llywio'r NPM i'w chymeradwyo.

Bydd y grŵp llywio yn adolygu effeithiolrwydd gwaith yr is-grŵp ar ddiwedd y flwyddyn, ar sail adroddiad a hunanasesiad.

# Atodiad Pump

## Rhestr byrfoddau

| | |
|---|---|
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| BMA | Bwrdd Monitro Annibynnol |
| CI | Care Inspectorate |
| CJINI | Criminal Justice Inspection Northern Ireland |
| CQC | Care Quality Commission |
| HMCIPS | Her Majesty's Chief Inspector of Prisons for Scotland |
| HMIC | Her Majesty's Inspectorate of Constabulary |
| HMICS | Her Majesty's Inspectorate of Constabulary for Scotland |
| HMIP | Her Majesty's Inspectorate of Prisons |
| HMIPS | Her Majesty's Inspectorate of Prisons for Scotland |
| ICVA | Independent Custody Visiting Association |
| ICVS | Independent Custody Visitors Scotland |
| IMBNI | Independent Monitoring Boards (Northern Ireland) |
| MWCS | Mental Welfare Commission for Scotland |
| NIPBICVS | Northern Ireland Policing Board Independent Custody Visiting Scheme |
| NPM | National Preventive Mechanism |
| OCC | Office of the Children's Commissioner for England |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills |
| OPCAT | Optional Protocol to the Convention against Torture and other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment |
| RQIA | Regulation and Quality Improvement Authority |
| SHRC | Scottish Human Rights Commission |

# Atodiad Chwech


## Mwy o wybodaeth am NPM y DU

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am NPM y DU, cysylltwch â chydgysylltydd yr NPM. Er mwyn cael mwy o wybodaeth am aelod penodol, gallwch gysylltu ag ef yn uniongyrchol.

Louise Finer
Cydgysylltydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Victory House
6th Floor
30–34 Kingsway
Llundain WC2B 6EX

Ffôn: 020 3681 2800
Ffacs: 020 7035 2141
E-bost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.justice.gov.uk/about/hmi-prisons/preventive-mechanism



Mae'r ddelwedd yn yr adroddiad hwn yn rhan o On the Rocks No 2, HMP Frankland, Alpha Hospitals, a enillodd Wobr Blatinwm am Lun Dyfrlliw yng nghystadleuaeth Gwobrau Koestler 2012. Mae Ymddiriedolaeth Koestler yn elusen celfyddydau mewn carchardai, sy'n ysbrydoli troseddwyr, cleifion sy'n cael eu cadw a phobl mewn lleoedd cadw i gymryd rhan yn y celfyddydau, gweithio i gyflawni nodau a thrawsnewid eu bywydau. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: www.koestlertrust.org.uk

Cynhyrchwyd gan y Tim Dylunio,
Cyfarwyddiaeth Cyfathrebiadau a Gwybodaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder

ISBN 978-1-4741-0024-3

9 781474 100243